CYNGOR GWYNEDD

# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cygor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10:30yb, DYDD IAU, 20FED TACHWEDD, 2025**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

**Noder: Cynhelir cyfarfod briffio I'r Aelodau am 10:00yb**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 13 Tachwedd 2025)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Linda Morgan
Meryl Roberts
Jina Gwyrfai
Sian Williams
Elin Walker Jones
Rheinallt Puw
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
John Pughe
Berwyn Parry Jones
Geraint Wyn Parry

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anwen J. Davies
Beth Lawton

## Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd
Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** 4 - 31

Er mwyn craffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**5. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET OEDOLION IECHYD A LLESIANT** 32 - 61

Er mwyn craffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI AC EIDDO** 62 - 93

Er mwyn craffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**7. BRIFF GRWP TASG A GORFFEN CWYNION** 94 - 96

I fabwsiadu'r briff ac i ethol Aelodau.

**8. COFNODION** 97 - 105

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 25 Medi 2025, fel rhai cywir.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 20fed o Dachwedd, 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran. |
| **AWDUR** | Sharron Williams Carter a Aled Gibbard, Pennaethiaid interim Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Menna Trenholme |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet dros yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mis Medi 2025, ar gyfer cynllun awtistiaeth a darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

Mae gan Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ddau brosiect yng Nghynllun y Cyngor, Cynllun Awtistiaeth a Chynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan.

**<u>Cynllun Awtistiaeth</u>**

Mae'r cynllun Awtistiaeth yn parhau i ffynnu, gyda galw cynyddol am wasanaeth. Mae anghenion a chymhlethdodau unigolion awtistig a'u teuluoedd yn gymhleth i ddadansoddi yn enwedig os oes trawstoriad o anghenion megis trawma, tlodi, rhieni niwrowahanol, Plant mewn gofal, achosion amddiffyn Plant ayyb felly mae'r angen i weithwyr cymdeithasol allu ymgynghori , trafod achosion a gofyn am fewnbwn uniongyrchol gweithiwr allweddol sy'n arbenigo yn y maes yn profi i fod yn llwyddiannus ar nifer o

achosion, sydd wedi arwain at ostyngiad mewn angen a statws (o CP i CASP ) a nifer o achosion wedi cau yn dilyn ymyrraeth. Mae yna restr aros fer erbyn hyn ar gyfer cefnogaeth uniongyrchol gweithiwr allweddol.

Mae'r rhaglen hyfforddi staff yn parhau ac yn datblygu gyda gwahanol lefelau o hyfforddiant sydd yn ddibynnol ar y swydd. O hyfforddiant sylfaenol i'r oll weithle drwodd i hyfforddiant uwch ar gyfer swyddi arbenigol megis gweithwyr gofal cymdeithasol a rheolwyr tîm. Mae'r tîm bellach yn hyfforddi gweithwyr i hwyluso a rhedeg grwpiau a rhaglenni cefnogi ac addysgol i rieni a gofalwyr yn ogystal â grwpiau hunaniaeth i bobl ifanc awtistig. Mae rhaglen hyfforddi ar gyfer rhieni maeth hefyd ar waith.

Mae grwpiau megis 'Paned a Sgwrs' i rieni a gofalwyr a chlwb Niwro i bobl ifanc yn parhau i fod yn llwyddiannus.. Parhau hefyd mae'r cydweithio ag Adran Addysg, gwasanaeth Niwro ddatblygiadol, staff mewnol ac allanol ac ymgysylltu â'r trydydd sector.

Ap Niwro Cymru sydd wedi ei ddatblygu gan Awtistiaeth Gwynedd ar gyfer darparu Gwybodaeth, Cyngor a chymorth i'r gymuned ND a phobl broffesiynol yn llwyddiannus iawn yn dilyn lansiad meddal yn yr Eisteddfod ac yn cael ei drafod yn rhanbarthol ac yn genedlaethol fel teclyn IAA ehangach.

Hyderwn nad oes pryderon presennol yn sgil y cynllun hwn, a bod y gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a hyrwyddo cyfleodd i unigolion awtistig a'i teuluoedd. Pwysig yw nodi fod arian ar gyfer y cynllun hwn yn dod i ben ym 2027 ac felly mae hyn yn creu risg yn y tymor hirach. Byddwn angen ystyried sut i sicrhau parhad gwasanaeth i'r dyfodol i'r adnodd gwerthfawr hwn.

**<u>Darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan</u>**

Mae'r Cynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartref grŵp bychan wedi datblygu'n sylweddol erbyn hyn. Mae'r cartref sydd ym Morfa Bychan yn weithredol gyda 2 blentyn yn byw ynddo. Ar gyfer y cartref yn Neiniolen, trefnwyd digwydd recriwtio yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon Mis Gorffennaf a mynychodd 30 o bobl. Yn dilyn hyn penodwyd dirprwy reolwr a 5 gweithiwr preswyl ar gyfer yr ail dŷ yn Neiniolen. Mae'r staff wedi cychwyn yn ei swyddi eisoes. Rydym yn parhau i ddisgwyl am gofrestriad swyddogol i'r cartref cyntaf, er hyn nid ydym yn pryderu gan ein bod mewn cysylltiad parhaus ag Arolygiaeth Gofal Cymru a dylid cwblhau'r cofrestriad yn fuan iawn. Mae cais cofrestriad ar gyfer yr ail dŷ yn Neiniolen wedi ei wneud ac rydym yn disgwyl i glywed yn ôl gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rydym yn y broses o brynu tŷ yng Nghriccieth hefyd ac yn obeithiol bydd y gwaith ar y tŷ yma wedi ei gwblhau yn y flwyddyn newydd. I wneud yn siŵr bod darpariaeth ym mhob dalgylch yng Ngwynedd, rydym dal i edrych am gyfloed i brynu tŷ ym Meirionnydd ond ar hyn o bryd ddim yn bosib oherwydd y farchnad dai. Mae hyn oherwydd bod manyleb benodol yn gorfod bod er mwyn cael cofrestriad gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Yn bresennol mae 283 o blant mewn gofal yma yng Ngwynedd. Newyddion positif ddaeth dros y flwyddyn ddiwethaf yw clywed fod 4% o blant wedi gadael gofal ac wedi

dychwelyd adref. Canran bositif arall y dylid amlygu yw'r nifer o gynadleddau achos ble bu llais / barn y plentyn (5+oed) ei glywed. Roedd y canran hwnnw'n 94%, er ei fod yn is na'r chwarter cynt, rydym dal yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod llais y plentyn yn cael ei glywed. Yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gostyngodd nifer y bobl a ddaeth i mewn i'r gwasanaeth am y tro cyntaf i 37 (-13%), sy'n cael ei groesawu o ystyried yr ymdrechion a wnaed gan y gwasanaeth a'r Bwrdd rheoli yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae Tîm allan o oriau hefyd yn gwneud gwaith ardderchog yn sicrhau bod pob galwad wedi derbyn ymateb cyn i'r sifft orffen. Mae Gwasanaeth Teulu Gwynedd wedi llwyddo i i ymestyn cynllun gofal plant 2 oed gyda 9 darpariaeth ychwanegol sydd yn galluogi fwy o deuluoedd i dderbyn cefnogaeth. Roedd y trelar chwarae wedi bod yn hynod lwyddiannus dros y Rhâf.

Ar y llaw arall mae rhaid nodi pryder yn y nifer o gyfeiriadau y ceir i'r tîm derbyn. Nodir mai hon yw'r flwyddyn prysuraf i'r tîm ers ei sefydlu. Gyda hyn mae'r tîm yn teimlo'r pwysau gyda'r nifer o gyfeiriadau ond hefyd gyda chymhlethdod yr achosion. Teimlo'r pwysau mae Gwasanaeth Derwen hefyd, gyda dros bum cant o achosion yn agored iddynt. Mae'r Tîm 16+ hefyd yn parhau i adrodd fod galw am wasanaethau ar ei uchaf, a bod 238 achos yn agored iddynt yn bresennol. Hyn ydi'r uchaf mae achosion wedi bod ers sefydlu'r tîm. Mae nifer uchel o achosion a diffyg staff yn creu pryder a phwysau gwaith uchel. Gwelwn batrwm clir fod y galw ar yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn codi ac felly'r pwysau sydd ar ein staff. Am y tro cyntaf erioed mae'r nifer cyfeiriadau atom bron a chyrraedd 8,000, sydd yn gynnydd o 5% dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhagolygon am y flwyddyn hon i weld bod nifer y cyfeiriadau am aros yr un fath o gwmpas 8,000 eleni os nad mwy.

Rhaid pwysleisio ein bod wedi cydnabod y pwysau gwaith cynyddol hwn ar ein gweithlu. Drwy'r pwysau gwaith cynyddol rydym fel adran wedi cyflwyno bidiau ac mae nifer o fidiau llwyddiannus ar gyfer 2025-2026. Mae hyn yn cynnwys 5 bid i gyd. £400,000 ar gyfer 7 swydd yn y timau gweithredol. £300,000 ar gyfer gwasanaeth preswyl arbenigol mewn 1 tŷ. £500,000 ar gyfer lleoliadau all-sirol. £200,000 ar gyfer Taliadau Uniongyrchol Derwen. £800,000 ar gyfer Gweithwyr Cefnogol Derwen. Mae'r bidiau yma yn dod i gyfanswm o £2.2 miliwn. Cafodd nifer o fidiau ei rhoi oherwydd bod nifer cyfeiriadau wedi codi yn sylweddol a chymhlethdodau achosion hefyd wedi mynd yn gymhleth. Yn ogystal ar ffaith bod mwy o deuluoedd angen mewnbwn y timau Plant. Drwy fod yn llwyddiannus gyda'r bidiau mae yn rhoi cysondeb i wasanaethau a rhoi'r gorau i blant a theuluoedd. Gwyddwn y bydd yn heriol denu staff, yn enwedig staff profiadol a chymwys, ond gydag amser gobeithiwn y daw'r ychwanegiadau hyn a rhywfaint o ryddhad i'n gweithlu cydwybodol.

**Adroddiadau Archwilwyr Allanol (os yn berthnasol)**

Cafwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cyfiawnder trwy ein Dewrder ei gyhoeddi Dydd Mawrth y 4ydd o Dachwedd. Rydym ar hyn o bryd fel adran yn cydweithio gyda'r Adran Addysg i ymateb i'r argymhellion yn llawn ac yn brydlon.

Rydym hefyd yn cael arolygiad ar y cyd gydag Adran Addysg gan Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn wythnos cychwyn y 10fed o Dachwedd. Byddwn yn diweddaru aelodau yn yr adroddiad nesaf.

## 3. Ymgynghori

Mae’r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, gyda’r Cyfarwyddwr, Penaethiaid interim, Rheolwyr Gwasanaeth, Uwch Swyddog Gweithredol a minnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

**Gwynedd Ofalgar: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau**

| Adran | Prosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Amlinelliad o'r cerrig milltir ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun: |
|---|---|---|---|---|
| **Plant a Theuluoedd** | **Cynllun Awtistiaeth** | Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau. | 1. Parhau gyda'r rhaglen hyfforddiant i staff rheng flaen. Sicrhau bod staff yn gwneud hyfforddiant Lefel 1 a 2 Awtistiaeth a gwneud yn siŵr bod y ffigyrau yn cynyddu. Gwneud yn siŵr bod swyddi arbenigol yn gwneud hyfforddiant Lefel 3 ac mae Tîm Awtistiaeth hefyd yn rhoi hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Lefel 4.<br><br>2. Hyfforddi staff i gynnal grwpiau arbenigol awtistiaeth, megis CYGNET er mwyn gallu darparu yn ehangach ar draws y sir. 3. Parhau i ddatblygu grwpiau ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid o ba grwpiau sydd angen eu cynnal a gwasgaru'r rhain dros y Sir. E.g clwb niwro, grŵp hunaniaeth etc. Hyn yn bwydo fewn i grŵp rhanddeiliaid awtistiaeth Gwynedd sydd yn cyfarfod yn chwarterol.<br><br>3. Parhau cydweithio gydag Adran Addysg, Thîm Niwroddatblygiadol (NDT), Gwasanaeth integredig awtistiaeth (IAS) a gwasanaethau statudol Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion Gwynedd yn cael mynediad ir gwasanaethu a cymorth sydd ei angen.<br><br>4. Ymgynghori gyda staff mewnol ac allanol. Creu cynllun cymuned mewn ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol i cael mynediad i arbenigedd y tîm. 5. Parhau i ddatblygu adnoddau a creu llyfrau gwaith amrywiol er mwyn rhannu a gweithwyr iddynt allu defnyddio yn ei gwaith o ddydd i ddydd. | 1. Creu cynllun busnes<br><br>2. Lansio ap Niwro Gwynedd i rhoi mynediad haws at wybodaeth a gwasanaethau lleol<br><br>3. Sefydlu Grŵp rhanddeiliaid i hyrwyddo cydweithredu, cyd-gynhyrchu a rhannu arfer da. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Plant a Theuluoedd** | **Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan** | Rydym am wella profiadau'r plant sydd yn ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. | 1. Lleoli'r ail blentyn ym Morfa Bychan ddechrau Ebrill, 2025.<br>2. Penodi staff i'r ail a'r trydydd tŷ, sef Deiniolen ac Edern.<br>3. Gwneud addasiadau ar gyfer y ddau dŷ, Deiniolen ac Edern, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd gofynion CIW.<br>4. Yna byddwn yn gweithio i dderbyn cofrestriad gyda CIW am ddau dŷ yn Neiniolen ac Edern.<br>5. Gobeithiwn agor y ddau dŷ yn Neiniolen ac Edern, a'u cael yn weithredol.<br>6. Bwriadwn chwilio am leoliad posib yn de'r sir er mwyn cael cartref bychan ychwanegol. | 1. Adeiladu tŷ / prynu pedwerydd cartref.<br>2. Derbyn cofrestriad CIW ar gyfer yr holl dai.<br>3. Penodi Rheolwyr a staff i weddill y tai.<br>4. Hyfforddiant i staff ym mhob tŷ.<br>5. Edrych os oes modd gwneud gwaith ecogyfeillgar - paneli solar ac ati. Hyn yn ddibynnol ar faint o arian grant sydd yn weddill yn dilyn prynu / adeiladu'r tai a gwneud yr holl addasiadau sydd ei angen i wireddu'r cartrefi gorau a fwyaf diogel. |

# Herio a Chefnogi Perfformiad

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Cyfnod : Ebrill – Medi 2025

# Trosolwg yr Adran – Plant Mewn Gofal

Pwrpas : Dwi eisiau i chi sicrhau fy mod yn cael fy nghadw yn saff, fy niogelu rhag niwed, yn cael bywyd sefydlog, ac yn cael pob cyfle a help i gyrraedd fy mhotensial.

**Nifer Plant mewn Gofal**

283 (30/09/25)

**Nifer o achosion Llys**

35 (30/09/25)

Canran o blant mewn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (Cronnus)

**2%**

Canran plant mewn gofal wedi dychwelyd adref (allan o ofal) yn ystod y flwyddyn (cronnus)


**4%**

**Cyfartaledd Llwythi Gwaith**

**18**

Nifer o blant wedi dod i ofal ers Ebrill

**31 (26% o dan 1 oed)**



# Trosolwg yr Adran – Amddiffyn Plant

Canran plant gafodd eu trafod mewn cynhadledd amddiffyn gychwynnol wedi eu cofrestru (Cronnus)

**90%**

Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed)


**94%**


Nifer o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

127 (30/09/25)

Nifer o ddyddiau, ar gyfartaledd, mae plant wedi bod ar y gofrestr amddiffyn

**216**




Nifer o blant wedi eu cofrestru

97 (6 mis)

**Arweinydd – Marian Parry Hughes**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd : Tîm Derbyn (Cyfeiriadau)


**Nifer cyfeiriadau (IAA)**

Ch1 - 1914

Ch2 - 1822

**Ffynhonnell Cyfeiriadau**

Heddlu - 1751
Addysg - 343
Iechyd - 319




**Trosolwg o Berfformiad:**

- Sefyllfa staffio yn rhoi pwysau ychwanegol
- Achosion cymhleth yn parhau
- Sawl cais gan Awdurdodau Lleol eraill i ni dderbyn achosion

**Arweinydd : Elliw Hughes**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd : Tîm Derbyn (Asesiadau)

| Trafodaethau Strategaeth Cychwynnol | Asesiadau wedi eu cwblhau | Canran o blant wedi eu gweld yn ystod asesiad | Canran asesiadau wedi eu cwblhau gan ddefnyddio iaith a ffefrir |
|---|---|---|---|
| Ch1 - 73<br>Ch2 - 58 | 365<br><br>Canran o Asesiadau wedi eu cwblhau ar amser<br>69% | 96% | 89% |

**Trosolwg o Berfformiad:**

Asesiadau o fewn 42 diwrnod wedi disgyn gan fod yna swyddi gwag o fewn y tim, mae asesiadau yn aml yn gymhleth ac yn aml mae digwyddiad/gwybodaeth newydd yn dod mewn sydd yn golygu fod angen ail ymweld a trafod, nid yw'r rhai sydd cwblhau wedi tu hwnt i 42 diwrnod yn codi pryder diogelu.

**Arweinydd : Elliw Hughes**

# Rhaglen Grant Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd 2025/26

**Pwrpas – Bod plant a theuluoedd Gwynedd yn hapus ac yn ffynnu.**

Bwriad y rhaglen yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd, gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu ac atal rhag bod mewn sefyllfa lle y mae angen gofal adferol drud arnynt trwy gyfrwng y gwasanaethau statudol yn y dyfodol.

## Beth sydd ar gael trwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd:


- **Cydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu i'r teuluoedd mwyaf bregus.**
- **Cefnogaeth gan ein Tim Cefnogi Teulu gyda materion ymddygiad a phethau bob dydd a all godi.**
- **Ymyrraeth gan Y Bont i gryfhau perthnasau teuluol trwy gymodi, cynhadledd grŵp teulu a chwnsela.**
- **Cefnogaeth trwy Derwen i gefnogi teuluoedd sydd â phlentyn ag anghenion ychwanegol a heb ddiagnosis.**
- **Cefnogaeth gan y Tîm Datblygiad Cynnar os oes pryder am ddatblygiad cyffredinol a iaith plentyn.**
- **Cefnogaeth gan weithiwr ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid os oes pryder am ymddygiad gwrth gymdeithasol.**


# Rhaglen Grant Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd 2025/26

Mae mesurau perfformiad cenedlaethol wedi eu sefydlu er mwyn gwybod pa mor dda mae'r rhaglen yn perfformio o fewn awdurdodau lleol.

**Trosolwg o Berfformiad:** Ffigyrau Tim o Amgylch y Teulu Ebrill-Medi 2025. **Arweinydd** – Caren Brown

**Nifer y cyfeiriadau newydd yn ystod Ebrill-Medi 2025: 184**




**Nifer Asesiadau a Chynlluniau Teulu Ebrill-Medi 2025:**
**Cyfanswm nifer Asesiadau: 117**
**Cyfanswm Cynlluniau Teulu : 10**

**Datganiadau gan Deuluoedd -**

"The care that I have received has been outstanding since being under teams around the family especially with EJ as she has gone above and beyond with the support I have received from her. I'm extremely grateful for the support I have received with my son's schooling and help with my housing situation, and always available to offer any advice she has"

"All communication, speed and contact have all been very clear &impressive with myself and others so thank you very much for being there to help myself including my children"

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd :Trobwynt

**Pwrpas :** Dwi eisiau i chi sicrhau fy mod yn cael fy nghadw yn saff, fy niogelu rhag niwed, yn cael bywyd sefydlog, ac yn cael pob cyfle a help i gyrraedd fy mhotensial.

Nifer o blant wedi bod yn agored i'r tîm ar 30/09/25

96

Canran o achosion lle dangosir cynnydd yn unol a phwrpas yr ymyrraeth

Ch1 – 77%
Ch2 – 79%

**Trosolwg o berfformiad:**

- 31 allan o 36 o blant yn parhau i fyw adref gyda'i teuluoedd yn dilyn ymyrraeth (Achosion Amddiffyn Plant neu Cymorth a Chefnogaeth).
- 10 plentyn allan o ofal yn llwyr yn dilyn asesiadau llys i diddymu'r gorchmynion gofal (10 Dim gorchymyn yn dilyn llys).
- 29 o achosion cyn geni hyd at 12 mis oed wedi bod yn agored gyda'r bwriad I'w cadw adref neu dychwelyd adref o ofal maeth.
- 72 o blant oedd yn agored (Ch1 & 2) gyda rhiant/rhieni yn camddefnyddio sylweddau.

**Arweinydd: Aled Gibbard**

# Maethu

**Sylwad gan blentyn / rhiant maeth :**

Emma – sy'n 21 oed erbyn hyn – wedi rhannu ei phrofiad teimladwy o gael ei magu fel rhan o deulu maethu drwy Maethu Cymru Gwynedd.

"Mae wedi bod yn brofiad hyfryd rhoi'r cariad, y diogelwch a'r gefnogaeth y mae'r plant yn haeddu. Mae gwybod eich bod wedi eu helpu i dyfu i bwy maen nhw fod yn rhywbeth arbennig iawn.
"Mae pobl yn gofyn yn aml sut mae'n teimlo pan fo'r plant yn gadael. A bod yn onest, mae bob amser yn chwerwfelys. Rydym yn dod mor agos atyn nhw – maen nhw'n teimlo fel rhan o'r teulu – felly mae'n anodd ffarwelio â nhw. Ond ar yr un pryd, mae'n braf iawn gwybod eu bod yn symud ymlaen i gael dechrau o'r newydd, fel y maent yn ei haeddu. Mae eu gweld nhw'n hapus, wedi setlo ac yn gwneud yn dda yn gwneud y cwbl yn werth chweil. A phan rydym yn cadw mewn cysylltiad ac yn gweld eu cynnydd, mae'n ein hatgoffa o bwysigrwydd maethu."

**Trosolwg o berfformiad.**
**Arweinydd: Aled Gibbard**

- **283 o blant mewn gofal ar 30/9/25**
- **70% mewn gofal maeth**


**Teulu / Ffrindiau**
(Cronnus)

Cyfeiriadau – 61

Asesiadau Addasrwydd – 46

Asesiadau Llawn –

Lleoliadau Newydd Ebrill-Medi 2025














# Prosiect Cynllun y Cyngor :- Cynllun Awtistiaeth (Ebrill i Medi)

**Pwrpas** : Hyrwyddo unigolion awtistig a'u teuluoedd i fynnu ac i fyw bywyd i'w llawn potensial.

**Trosolwg Perfformiad : -**

- Niferoedd staff ar draws y cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 a 2 wedi cynyddu yn sylweddol dros y 6 mis diwethaf. Niferoedd o weithwyr o fewn gwasanaethau cymdeithasol sydd a dyletswyddau asesu yn cwblhau hyfforddiant lefel 3 a 4 hefyd wedi cynyddu.
- Digwyddiad llwyddiannus yn Eisteddfod yn gwneud lawnsiad meddal or ap Niwro. Yr Ap bellach yn cael ei drafod yn rhanbarthol a chenedlaethol fel hwb wybodaeth ND.
- Grŵp rhanddeiliaid wedi sefydlu ac yn cyfarfod bob chwarter.
- Llwybr clir wedi sefydlu ar gyfer cefnogaeth, arweiniad a ymgynghori a gweithwyr proffesiynol. Awtistiaeth Gwynedd yn wasanaeth eilaidd o fewn gwasanaethau cymdeithasol, tydi'r tîm ddim yn dal achosion ond yn gweithio fel rhan or cynllun gofal i gefnogi'r gweithwyr a'r teuluoedd os oes angen.
- Gweithiwr cymdeithasol y tîm yn cefnogi oed trosglwyddo. Hefyd ar gael i asesu anghenion gofal a chymorth ar y cyd a'r timoedd statudol er mwyn sicrhau bod asesiad cryno a holistig o anghenion y person/teulu yn cael ei adnabod drwy lens niwrowahaniaeth.
- Gwaith sydd yn cael ei gwblhau ar sail 1-1 yn cael ei mesur yn erbyn marcwyr lles drwy cwblhau canlyniad seren (outcome star).
- Gwaith yn parhau o ran ymgynghori ar trydydd sector. Cynrychiolaeth o'r trydydd sector yn mynychu y grŵp rhanddeiliaid, mae'r gwaith yma yn parhau ac yn datblygu

**Arweinydd :** Aled Gibbard

| Nifer o ymholiadau GGC | Nifer o achosion yn derbyn ymyrraeth uniongyrchol ac anuniongyrchol | Nifer wedi cwblhau hyfforddiant (cyfnod 6 mis) |
|---|---|---|
| 104 | 178 | E Modiwl L1 -256<br>E modiwl L2- 198<br>E modiwl L3- 119 |

"Mae Ap yma yn wych, yr oll wybodaeth o dianosis I gefnogaeth I pawb mewn un lle bawb. Gwybodaeth sydd yn ddibynadwy a chywir.
**(aelod or cyhoedd)**






**Mae'r gwaith maer tîm y ei ddarparu yn wyrthiol, fel bod ganddynt 'magic wand' pan yn mynd allan I weithio hefo plant a theuloedd. Mae'r tim yn wybodus iawn yn bob elfen o awtistiaeth a Niwrowahaniaeth fellu mae cael cysylltu a'r tîm i drafod achosion cymleth yn werthfawr iawn ac yn helpu I ni fel gweithwyr edrych ar sefyllfa mewn fordd wahanol. Mae'n braf gweld teuluoed yn cael ei dad gofrestru or gofrestr amddiffyn plant oherwydd newid mewn ymagwedd a dealltwriaeth gwell gan y teuluoedd ar gweithwyr profesiynnol.**

**(Gweithiwr Cymdeithasol)**

# Prosiect Cynllun y Cyngor :-
# Cartrefi Grŵp Bychain

Pwrpas : I'w ddatblygu

**Trosolwg Perfformiad : -**

- Trefnwyd digwyddiad recriwtio ar gyfer Deiniolen ym Mis Gorffennaf, 2025. Yn sgil hyn rydym wedi penodi Dirprwy Reolwr a 5 gweithiwr preswyl. Y bwriad ydi penodi ar gyfer un swydd gweithiwr preswyl arall.
- Rydym dal yn disgwyl cofrestriad ar gyfer Morfa Bychan ond mae AGC yn hapus ein bod yn gweithredu gyda 2 blentyn yn byw yn y tŷ er bod ganddom ddim cofrestriad ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd bod Aled Gibbard wedi gorfod cofrestru i fod yn berson cyfrifol (RI).
- Rydym wrthi yn rhoi cais cofrestriad i mewn ar gyfer Deiniolen i AGC ac yn gobeithio bydd hwnnw yn ei le erbyn Mis Tachwedd.
- Rydym wedi prynu tŷ hefyd yng Nhriccieth. Mae Tai ac Eiddo wrthi yn gweithio ar y tŷ er mwyn ei gael yn barod i'r plentyn sydd ar hyn o bryd yn byw yn Hafan y Sêr. Gobeithiwn bydd popeth yn ei le cyn y Nadolig. Bydd hwn yn cael blaenoriaeth fel y tŷ nesaf i agor.
- Rydym hefyd wedi prynu tŷ yn Ffordd Farrar, Bangor sydd ar gyfer plant / pobl ifanc sydd yn gadael gofal. Rydym yn disgwyl Tai ac Eiddo wneud y gwaith ar yr eiddo yma hefyd.
- Rydym dal i edrych am dŷ addas ar gyfer y prosiect yn ardal Dde Meirionnydd, ond mae opsiynau tai addas yn brin iawn yn y dalgylch yma.







MESURAU

i'w datblygu ar gyfer 2025-26

**Arweinydd : Aled Gibbard**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd : Tîm Ôl Ofal

Pwrpas : Dwi eisiau bod yn annibynnol a chael help pan dwi angen o.

Canran pobl ifanc ôl-ofal sydd wedi bod yn ddigartref

Cronnus – 3%

**Achosion y Tim 30/9/25**

Gofal a Chymorth - 33
Categori 1 - 47
Categori 2 - 2
Categori 3 - 155

Nifer o geiswyr lloches

**3 (16-17 oed)**
**28 (18+)**

**Trosolwg o berfformiad:**

- Ddipyn o newidiadau staffio yn ddiweddar gyda 2 x Weithiwr Cymdeithasol yn gadael I swyddi newydd ond wedi llwyddo I cael 2 Weithiwr newydd I lenwi'r bwlch.
- Mae'r llwyth gwaith yn parhau I fod yn drwm gyda nifer o achosion heriol, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn achosion sydd ar yr gofrestr Amddiffyn Plant.
- Parhau I wynebu diffyg gyda opsiynnau llety I unigolion sydd yn gadael gofal gyda anghenion cymhleth. Ar adegau mae hyn yn golygu fod unigolion yn gwynebu symud ymlaen I lety anaddas I'w anghenion, ag yn arwain I rhai cael ei wahardd oherwydd ei ymddygiadau. Hyn yn gallu arwain at Adran Ddigartref yn nodi fod ganddynt ddim dyletswydd bellach I gynnig llety ir unigolion, sydd yn gadael nhw mewn sefyllfa fregus ag diffyg opsiynnau addas. Wedi trafod hynny gyda'r adran digartref ag yn adnabod fod yna fwlch ar hyn o bryd gyda ddarpariaeth I unigolion sydd a heriau ag phroblemau cymhleth.

**Arweinydd : Aled Gibbard**

# Gwasanaeth DERWEN

**Pwrpas : - Dwi eisiau cael fy nerbyn fel ag yr ydwyf ac yn cael yr un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall.**

Nifer o asesiadau a gwblhawyd ers Gorff '25: 31

Plant a pobl Ifanc ar agor I'r gwasanaeth 505

Cyfeiriadau Newydd ers Gorff '25 31
Cyfeiriadau Mewnol ers Gorff '25 35

Plant Mewn Gofal: 11

Plant ar y Gofrestr Amddiffyn: 1

## Trosolwg o berfformiad:

**Trosolwg o'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol –** Mae Therapydd Galwedigaethol preifat wedi cael ei gomisiynu i roi sylw i'r achosion mwyaf anghenion, ac mae'r swydd llawn amser bellach wedi'i llenwi. Mae'r unigolyn sydd wedi derbyn y swydd ar fin cymhwyso fel Therapydd Galwedigaethol, felly mae'n gweithio fel Ymarferydd Gofal Cymdeithasol tan ei fod yn derbyn ei dystysgrif.

**Perfformiad a Chynhwysedd y Tîm Gwaith Cymdeithasol –** Bu'r haf yn heriol yn Derwen gyda salwch a gwyliau, ond mae'n ymddangos ein bod wedi llwyddo i ymdopi. Mae pob swydd bellach wedi'i llenwi. Bydd un gweithiwr cymdeithasol newydd (wedi cymhwyso'n ddiweddar) yn dechrau gyda'r tîm ar ddiwedd mis Hydref. Mae un gweithiwr cymdeithasol yn gadael am secondiad gyda'r tîm Ôl-ofal, ond mae unigolyn o fewn Derwen wedi cytuno i gwmpasu'r swydd dros dro fel ymarferydd gofal cymdeithasol.

**Gwasanaeth Gofal a Chefnogaeth i Gwsmeriaid –** Mae'r Tîm Dyletswydd a Gofal Cwsmeriaid o dan bwysau sylweddol o hyd, gan fod y rhestr aros ar gyfer gwasanaeth nyrsio Derwen yn dal yn hir iawn. Oherwydd hyn, mae plant a theuluoedd yn dibynnu'n fawr ar y gefnogaeth gan y gwasanaeth hwn, gan roi mwy o bwysau ar y tîm i ymdopi â'r galw cynyddol. System.


**Arweinydd : David Lewis**


# Gwasanaeth Teulu Gwynedd

## Gofal Plant a Chwarae

**Pwrpas : Cefnogi lleoliadau gofal plant i ddarparu gwasanaeth gofal, chwarae ac addysg gynnar o safon uchel**

381 o blant a 176 o rieni wedi mynychu 13 sesiwn y trelar chwarae yn ystod gwyliau Haf




Meithrinfa Plas Pawb Holiaduron rhieni - 100% wedi sgorio 5 neu 6 allan o 6 am y lefel gofal

Casglu barn darparwyr gofal plant ar ddiwedd cefnogaeth gan y gwasanaeth Mesurydd i'w ddatblygu

- **Chwarae**

Cytunwyd 11 cais grant i ddarparwyr ar y fframwaith gweithgareddau i gynnal gweithgareddau yn ystod gwyliau haf.
Niferoedd y plant wedi cynyddu ar y Trelar Chwarae haf eleni gyda adborth cadarnhaol gan y teuluoedd. 'Staff a'r gweithgareddau yn wych; Sesiwn dda, braf cael rhywbeth fel hyn i'r plant wneud tu allan ar ddiwrnod braf ac am ddim. Hyfryd bod hyn yn bodoli ac am ddim'

- **Prosiectau Cyfalaf mawr**

Cylch Meithrin Deiniolen wedi cofrestru gyda AGC a symud mewn i'r caban newydd. Darpariaeth newydd Plant y Nant wedi cofrestru gyda AGC a symud i mewn i'r caban newydd ar safle Ysgol Bro Lleu. Parhau i weithio ar prosiect Ein Harglwyddes a Hirael.

- **Cynllun ymestyn Gofal Plant 2 Oed**

Cam 3 wedi cymeradwyo gan y Cabinet y Cyngor mis Mai. 9 darpariaeth ychwanegol wedi arwyddo cytundeb i ddarparu'r Gofal Plant 2 oed, fydd hyn yn galluogi fwy o deuluoedd derbyn cefnogaeth o Fedi 2025.

- **Meithrinfa Plas Pawb**

1 aelod staff yn mynychu hyfforddiant Ysgol Goedwig, gwaith ar y gweill i gyd-weithio gyda Ysgol Maesincla a Cylch Meithrin Maesincla i ddatblygu Ysgol goedwig ar y safle.
Adborth rhieni 'Pan fydd mamau yn mynd nôi i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth, un o'r prif bryderon ydi sut fydd y babi yn ymgartrefu mewn meithrinfa ac os fydd yno ddigon o ofal yn cael ei roi  ond un peth sy'n sicr ydy, dydan ni erioed wedi gorfod poeni am hynny yn Plas Pawb!'



**'Plant y Nant' tu allan i'r adeilad newydd yn Bro Lleu**

**Arweinydd : Sioned Owen a Rachel Jones**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd

## Athrawon Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar

TEULU GWYNEDD

**PWRPAS: Sicrhau gofal plant a addysg feithrin o ansawdd i blant blynyddoedd cynnar Gwynedd**

Canran uchel o leoliadau yn sgorio gwyrdd ar y ddogfen arfarnu ansawdd
**Data i'w ddadansoddi**
**Mi fydd Data ar gael yn flynyddol – Ebrill 2026**

Canran uchel o leoliadau wedi derbyn arolwg AGC/ESTYN da neu well.
**Mi fydd Data ar gael yn dymhorol**
**85%**

Casglu barn lleoliadau yn dilyn hyfforddiant.
**Holiaduron yn mynd allan .**
**Mesurydd i'w ddatblygu - dadansoddi'r holiaduron**
**Canran wedi ymateb 51%**

Canran o'r plant yn derbyn CDU wrth ddilyn proses map darpariaeth
**Mesurydd – data tymhorol**
**75%**

**Trosolwg o berfformiad:**

- Wedi cynnig tri hyfforddiant i bob lleoliad - Theori Ymlyniad, Darnau Rhydd ac Ymddygiad Cadarnhaol
- Hyfforddiant yn cael ei baratoi ar gyfer tymor yr Hydref gan aelodau o'r tîm.
- Tîm gweinyddol wedi rhoi system ddadansoddi holiaduron effeithiol mewn lle.
- Gweithio ar greu cynllun i sicrhau gwreiddio egwyddorion hyfforddiant 'Trauma Informed Schools'
- Staff wedi mynychu hyfforddiant Beth Kitchen 'Accredited Advanced Sensory Needs Practitioner Training'
- Cytundeb mewn lle i hybu cyd-weithio rhwng lleoliad a rhieni i sicrhau fod canran uwch o blant wedi eu toiledu erbyn cyrraedd addysg feithrin ysgol. – dim data ar hyn o bryd.
- Gweithio gyda lleoliadau newydd gofal plant 2 oed gan weithio gyda'r warchodwraig gyntaf
- Un lleoliad wedi derbyn arolygiad ESTYN/AGC - ymchwiliad yn dilyn yr arolygiad i gwestiynu'r broses arolygu
- Gorfod ail hysbysebu swyddi ar gyfer y tîm
- **Arweinydd : Gwawr Hughes a Sioned Owen**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd

## Gweinyddiaeth a Busnes

**Pwrpas : Darparu cefnogaeth gweinyddol, busnes a gofal cwsmer o safon uchel ar gyfer holl rhanddeiliaid**

- Gweinyddu, monitro a dosbarthu arian grant ar gyfer lleoliadau Dechrau'n Deg, Gofal Plant 2 oed a'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer darparwyr. Mae'r tîm gweinyddiaeth a busnes wedi bod yn arbennig o brysur yn y cyfnod diweddar gyda gweinyddu'r holl grantiau arferol ynghyd â'r ceisiadau ehangiad Dechrau'n Deg sef cam 3 Gofal Plant 2 oed yn dod i rym.
- Prosiect ar waith ar gyfer datblygu system electronig er mwyn gweinyddu a monitro grantiau Dechrau'n Deg yn benodol, gyda'r nod o wella effeithlonrwydd a thryloywder y broses. Nod yw cael defnydd o'r system mewn lle erbyn y tymor ysgol nesaf.
- Gwaith hyrwyddo'r Uned ar ei newydd wedd yn parhau er mwyn sicrhau fod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r gwasanaethau eang sydd ar gael gan Teulu Gwynedd. Penodwyd Cymhorthydd Ymgysylltu a Marchnata er mwyn datblygu'r gwaith ymhellach gan sicrhau ein bod yn cyrraedd mwy o bobl mewn modd effeithiol ac effeithlon wrth weithio tuag at gael fwy o ddilynwyr ar ein cyfryngau cymdeithasol a sicrhau fod tudalennau gwybodaeth ein Uned yn gyfredol ar wefan Cyngor Gwynedd.
- Dal yn parhau gyda'r Adnodd arloesol o bodlediadau. Cynlluniau mewn lle ar gyfer cwblhau cynhyrchu a cyhoeddi 2 bennod diwethaf erbyn diwedd Rhagfyr 2025. Cydweithio ardderchog wedi bod gyda aelodau yr Uned a Iechyd i ddarparu gwybodaeth defnyddiol i rieni Gwynedd.
- Adborth bositif iawn gan rieni sydd yn cael defnydd o'r holl weithgareddau a phrosiectau yr Uned gan gynnwys y Prosiect Hwiangerddi. Drwy gydweithio gyda Live Music Now rhoddwyd y cyfle i rieni gyfansoddi a recordio hwiangerdd i'w plant a'i perfformio'n fyw mewn digwyddiad theimladwy a gwerthfawr iawn.

| Holiaduron bodlonrwydd gofal cwsmer | Nifer o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol | Nifer o sesiynau ymgysylltu gyda Teuluoedd Gwynedd | Nifer o blant sydd yn derbyn eu hawliad gwasanaeth Dechrau'n Deg, Gofal Plant 2 oed neu Cynnig Gofal Plant: | Nifer o ymholiadau mae Gwybodaeth i Deuluoedd wedi ymateb: |
|---|---|---|---|---|
| Adrodd nol diwedd y flwyddyn | Cynnydd = 43% | 35 | 1,844 | 153 |

**Arweinydd : Sioned Owen ac Elen Foulkes**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd
## Cefnogi Teuluoedd

**Pwrpas : Cefnogi a darparu'r cyfleoedd gorau i deuluoedd, plant a phobl ifanc Gwynedd.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **138** cyfeiriad newydd am gefnogaeth un i un **Rhiantu/Ymddygiad Gwynedd** | **46** cyfeiriad newydd am gefnogaeth **Datblygiad Cynnar Gwynedd.** | **76%** o rhieni yn datgan fod gwelliant yn eu sgiliau rhiantu yn dilyn cefnogaeth | **84%** o rhieni yn datgan fod gwelliant yn sgiliau iaith, cyfathrebu, chwarae a datblygiadol eu plant yn dilyn cefnogaeth |



**Trosolwg o berfformiad:**

- Swyddogion Cefnogi Teuluoedd wedi cynnal nifer o sesiynau Hwyl i Deuluoedd dros yr Haf yn cynnwys; hwyl yr haf, syrcas, tripiau, taith pram, sesiynau sensori a chwarae blêr. 205 o deuluoedd wedi mynychu gyda ambell deulu yn nodi 'Grêt o sesiwn digon o weithgareddau i pob oedran' , ' Amser gwerth chweil' a 'Very fun, friendly, five stars'.
- Hyfforddiant 'Cygnet' wedi ei dderbyn gan aelodau'r tîm i gefnogi teuluoedd sydd ag anghenion niwro wahaniaethol. Hyn yn dilyn ein cyd weithio gyda Thîm Niwro Gwynedd ac wrthi i ni groesawu'r cod ymarfer newydd i'n gwaith ymarferol gyda theuluoedd . Hyfforddiant Elklan Gestalt wedi ei gynnal i swyddogion Datblygiad Cynnar cefnogi sgiliau iaith a chyfathrebu plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a hyfforddiant Beth Kitchen 'Accredited Advanced Sensory Needs Practitioner Training' . Hyfforddiant gan Dr Ceryl Davies, Cam Ymlaen, i gefnogi teuluoedd gyda thrais yn erbyn rhieni gan blant.
- Wedi penodi swyddog tadau ac wedi codi nifer o achosion yn y cyfnod byr ers mis Awst. Wedi cychwyn ar sawl ymgais i rannu gwybodaeth am y gefnogaeth yma gyda negeseuon ar ein gwefannau cymdeithasol.
- Cyfnod o baratoi ar gyfer ail strwythuro'r tîm yn dilyn fod Gweithwyr cefnogi Teulu Barnardos wedi TUPE drosodd. Y staff wedi ei anwytho i ffordd Cyngor Gwynedd. Swyddfa wedi ei sefydlu yn Felin Fach, Pwllheli ac ym Mhenarlâg, Dolgellau i gyfarch anghenion teuluoedd yr ardal yn fwy effeithiol. Agoriad swyddogol y Swyddfa Deiniolen wedi bod yn llwyddiannus gyda nifer o'r gymuned yn ymweld.
- **Arweinydd : Sue Layton a Sioned Owen**

# Tîm Tu allan i Oriau/ EDT

Pwrpas : Dwi isho bod help ar gael i mi yn amserol mewn argyfwng gofal

| Nifer o alwadau sydd yn cael eu derbyn gan y tîm dyletswydd argyfwng | Nifer o alwadau sydd wedi derbyn penderfyniad o fewn cyfnod "shifft" | Nifer o alwadau sydd ddim wedi derbyn ymateb ar sail diffyg capasiti |
|---|---|---|
| 1774 | 1774 | **0** |

**Trosolwg o berfformiad:**

- Ymateb i alw - Yn y cyfnod o mis Ebrill 25i i Medi 25 mae pob galwad wedi derbyn ymateb a penderfyniad o fewn y shifft honno a fod gweithrediad priodol o fewn cyfyngiadau gwasanaeth argyfwng o'r fath, wedi cymryd lle. Derbyniwyd 1774 o alwadau, gyda 924 o alwadau Gwynedd, 756 Ynys Mon a'r gweddill tu allan i'r awdurdodau.
- Mae 389 o'r galwadau yn ymwneud a Plant mewn Gofal - Gwynedd 253 , Ynys Mon 121 a'r gweddill yn Awdurdodau eraill. Mae y galw yma yn aml am reoliadau dychwelyd adref i leoliad - ac os ydynt yn hwyr mae yn cael ei uchafu. Cynhelir cyfweliadau 'ar goll' gan y gweithiwr achos a gallu hynny fod am resymau diniwed lle nad oedd risg; i enghreifftiau eraill lle fod bod ar goll yn peri risg i'r plentyn, er enghraifft o gam-fanteisio.
- Digartrefedd – Yn y cyfnod diwethaf yma, mae 115 o'r galwadau yn ymwneud a digartrefedd – gan gynnwys 38 o Gwynedd. Fel nodwyd yn flaenorol mae Gwasanaeth Digartrefedd Gwynedd wedi creu trefniadau tu allan i oriau eu hunain. Mae'r trefniant yma wedi bod yn weithredol ers 6/2/24 Ers cychwyn mis Ebrill mae opsiwn digartrefedd ar wahân o fewn y dewisiadau ar y prif rhif cyswllt. er hynny mae rhai galwadau dal yn dod i EDT, gan nad yw'r trefniant newydd wedi ei hysbys i asiantaethau partneriaeth sydd yn dod i cysylltiad a pobl digartref. Mae'r nifer o alwadau I I'r Tim dyletswydd argyfwng yn ymwneud a Gwynedd yn parhau i leihau o dan y drefn newydd ac yn lleihau'r risgiau I'r gwasanaeth yma.
- Iechyd Meddwl – mae 185 o'r galwadau yn ymwneud a materion iechyd meddwl gan gynnwys asesiadau ffurfiol dan y Ddeddf. o rhain mae 80 o Wynedd. mae 58 o asesiadau o dan y ddeddf Iechyd meddwl wedi' cwblhau gen y Tim dyletswydd argyfwng.

**Arweinydd – Dafydd Paul**

# Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Pwrpas : Dwi isio bod yn saff a hapus trwy bywyd heb droseddu

| Dechreuwyr Tro Cyntaf /Number of First Tme Entrants | Cyfraddau Aildroseddu / Reoffending Rate | Cyfradd Dalfa / Custody Rate | Llwyth Achos / Number of Caseload |
|---|---|---|---|
| 43 | 27.8% | 1 | 111 |

**Trosolwg o berfformiad:**

Rhwng Gorffennaf 24 a Mehefin 25, gostyngodd nifer y bobl a ddaeth i mewn i'r gwasanaeth am y tro cyntaf i 37 (-13%), sy'n cael ei groesawu o ystyried yr ymdrechion a wnaed gan y gwasanaeth a'r Bwrdd rheoli yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae ein cyfradd aildroseddu hefyd wedi gostwng i 27.8%, ac mae'n is na'r cyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal, gallwn adrodd bod gan ein carfan Gwarediadau Allan o'r Llys aildroseddu llawer is o 11-13%. Rydym wedi cael ein dedfryd gyntaf o gaethiwed diogel ers 3 blynedd, ac mae'r plentyn yn cael ei gadw ar hyn o bryd yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Werrington ar ôl cael ei ddedfrydu ar 4 Hydref i 2 flynedd a 9 mis am glwyfo gyda bwriad Adran 18. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i gefnogi'r plentyn trwy ymweliadau rheolaidd, cynnal cysylltiad â rhieni/teulu a mynychu cyfarfodydd diogelu ac adolygu gyda'r sefydliad. Mae'r llwyth achosion yn parhau i fod yn iach ac mae'r ymgysylltiad o fewn y gymuned yn dda iawn. Bu gostyngiad bach yn nifer y menywod a gyfeiriwyd at y gwasanaeth, byddwn yn parhau i fonitro hyn. Mae mwyafrif yr achosion (79%) yn cael eu rheoli ar sail Penderfyniad Allan o'r Llys. Mae Bwrdd Rheoli'r GCI yn parhau i fonitro Amrywiaeth a Nodweddion Gwarchodedig, mae plant nad ydynt mewn addysg amser llawn ac sydd ag anawsterau gydag Iechyd Emosiynol a Meddyliol yn peri pryder eto. Mae ein Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2025-26 wedi'i gymeradwyo gan YJB Cymru a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefannau'r ddwy sir yn fuan.

**Arweinydd: Stephen Wood**

# Gofalwyr di-dâl

**PWRPAS** : ***Adnabod, cydnabod a chefnogi'r gwaith amhrisiadwy mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud ar draws Gwynedd***

| Gofalwyr ifanc sydd â mynediad i Aidi **(App/cerdyn)** | Gofalwyr ifanc a gefnogir gan Gweithredu Dros Blant | Asesiadau gofalwyr ifanc wedi cwblhau gan Gweithredu Dros Blant yn y cyfnod | Plant yn derbyn Gwasanaeth Cefnogol fel ysbaid i rhieni ofalwyr- Derwen |
|---|---|---|---|
| **116** | **145** | **36** | **240** |

## Trosolwg o berfformiad a negeseuon:

Mae'r Cyngor yn comisiynu'r mudiad Gweithredu Dros Blant i ddarparu asesiadau anghenion gofalwyr ifanc a chynnig cymorth ymarferol, gwybodaeth, cymorth, cyngor ac arweiniad i ofalwyr ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid yn unigol neu mewn grŵp. Roedd **36** person ifanc ar y rhestr aros ar ddiwedd y dyfnod. Cafodd XXX adolygiad eu cynnal yn ystod y cyfnod:

- Nifer wedi cofrestru ag Aidi o'r newydd yn y cyfnod **42**
- Number o frêcs bach wedi ei cymeradwyo **39** (drwy grant Amser)
- 38% yn gofalu am brawd/neu chwaer, 62% yn gofalu am riant (8% yn gofalu am oedolyn arall yn y teulu).
- Mae 42% yn gofalu am riant sydd efo salwch meddwl.
- Nifer o ofalwyr ifanc/teuluoedd sy'n adrodd eu bod efo mwy o wybodaeth am y gwasanaethau/cymorth sydd ar gael iddynt = 100%

Dylid nodi mai cymorth am 12 mis yn unig y gall y mudiad ei ddarparu ar hyn o bryd i blant o 8 oed i fyny.

Bu addasiadau mewnol o fewn Tîm Gofalwyr y Cyngor eleni a bellach mae Swyddog Llesiant Gofalwyr yn gweithio ar raglen waith sy'n cwmpasu pob ystod oedran – plant ac oedolion. Bu'r swyddog yma'n gweithio ar ddarparu ac addasu adnoddau gwybodaeth, gwneud cyswllt a'r Hybiau Cymunedol, Lawnsio a hyrwyddo cerdyn gofalwyr i oedolion, cadarnhau ffyrdd o ymgysylltu a chlywed lleisiau gofalwyr ac ystyried ffyrdd pellach o gydweithio gyda mudiadau a grwpiau lleol ar lawr gwlad yn ogystal â thimau mewnol.

## Adborth gan unigolion sy'n derbyn gwasanaeth:

*"Young Carers gave me a chance to get away from the stress at home, made me more confident in myself and overall improved my mood." Gofalwr ifanc 15 oed*

*"Eisiau dweud diolch yn fawr iawn dros fy mab, roedd wedi mwynhau ei hun hefo chi. Roeddem yn gwerthfawrogi yn fawr cael digwyddiad ar stepen drws i ni hefyd.) Rhiant gofalwr ifanc 10 oed*

Themau....


- Teuluoedd yn parhau i fod angen cefnogaeth ariannol, straen ar teuluoedd
- Nifer o blant syn gofalu am rhieni efo salwch meddwl yn cynyddu, effeithio perthnasau yn y teulu
- Nifer o blant sydd angen cefnogaeth lles drwy ein rhaglenni lles yn cynyddu.
- Y gwasanaeth yn hollol dibynnol ar grantiau a rhoddion i gallu rhoi seibiannau byr i ofalwyr ifanc ( dim arian yn y cyllideb am hyn).
- Ers cyflwyno dulliau sy'n cael eu llywio gan drawma i'n hymyriadau, rydym wedi gweld gwell ymgysylltiad a chyfathrebu mwy agored gan blant a phobl ifanc.


***Adborth a themau drwy wasanaeth Gweithredu Dros Blant*

# Datblygu’r Gweithle

**PWRPAS** : Datblygu’r gweithle

**Trosolwg o berfformiad a negeseuon**:





**Recriwtio**

- Recriwtio yn parhau yn flaenoriaeth, cyfeiriwyd 18 enw ymlaen i’r gwasanaethau trwy ymgyrch SOS yn ystod y cyfnod yma.

Prysurdeb yn ystod y cyfnod yma o gwmpas agor cartref newydd plant yn Deiniolen a digwyddiad penodol yn ardal Bangor ar gyfer oedolion.

**Adborth Cyrsiau**

- Rydym yn gwerthuso cyrsiau yn parhaus er mwyn sicrhau bod y cyrsiau yn parhau i cwrdd a’r angen .




**Cydlynydd: Gillian Paul**

# Eithriadau

Pwrpas : Adrodd ar unrhyw ddata neu eithriad mewn perfformiad sy'n peri pryder neu falchder.

| Cynadleddau Amddiffyn Cychwynnol ar amser | Canran o blant wedi ail-gofrestru o fewn 12 mis o ddad-gofrestru |
| --- | --- |
| **54%** | **11%** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 20/11/2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Rhoi sicrwydd fod gan yr Aelod Cabinet afael ar faterion perfformiad yr Adran. |
| **AWDUR** | Mari Wynne Jones |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dilwyn Morgan |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd a'ch diweddaru am unrhyw archwiliadau allanol sydd wedi cymryd lle yn ystod y cyfnod.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd 31/08/25. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad. Mi wyddom i gyd am yr heriau sydd yn wynebu yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, a hyn wedi eu amlygu fwy nag erioed fel rhan o'r adroddiad Llechen Lân. Yn nghyd destun yr heriau yma, rwy'n hapus fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

**Perfformiad Addewidion Cynllun y Cyngor**

2.2.1. Isod, mae crynodeb o'r prif brosiectau sydd wedi gweld cynnydd neu sy'n peri pryder ond dylid nodi mai rhai esiamplau sydd yma, a nad wyf yn cyfeirio at bob un llif gwaith gan fod prosiectau'r adran yn eang iawn. Gweler y manylder llawn fesul prosiect yn atodiad 1.

***Prosiect 1 - Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol***

2.2.2 Mae'r gwaith o uwchraddio cartrefi preswyl Hafod Mawddach a Cefn Rodyn wedi eu cwblhau, a'r uned ddementia yn Bryn Blodau wedi ei agor. Mae llithriad wedi bod yn yr amserlen i agor yr uned dementia ym Mhlas Hedd, ond disgwylir y byddwn yn ystod yr wythnosau nesaf mewn sefyllfa i gadarnhau'r dyddiad agor.

2.2.3. Mae trafodaethau yn datblygu o ran darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon, gyda'r safle wedi ei adnabod. Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar ddatblygiad tai gyda gofal addas ar safle Penyberth gyda'r bwriad o fod yn barod erbyn Hydref 2026. Mae llithriad wedi bod yn yr amserlen o ran adnabod safleoedd ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Dolgellau, ond mae adnodd penodol wedi ei adnabod i weithio ar y cynllun yma, ac mae'r gwaith wedi cychwyn.

***Prosiect 2 - Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal***

2.2.4 Mae unrhyw un yn gallu hunan gyfeirio am offer teleofal dros wefan y Cyngor bellach, mae dros 80% o ddyfeisiadau teleofal y Sir wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol, heb gost pellach i drigolion Gwynedd. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn parhau. Bellach mae unrhyw becyn newydd yn cael cynnig cyfrif digidol, gyfwerth a 'waled rhithiol' er mwyn gallu rheoli eu pecynnau taliadau uniongyrchol yn haws. Mae sicrhau fod y gweithlu yn hyderus yn hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn flaenoriaeth i mi, ac rwyf mewn trafodaethau cyson efo'r gwasanaeth i sicrhau fod hyn yn digwydd.

***Prosiect 3 - Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned***

2.2.5 Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd wedi'i sefydlu a'r gweithlu wedi setlo yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon ac ym Mhenrhyn. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlogi a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd dros y misoedd nesaf. Mae adolygu achosion A.117 ar y cyd a'r Bwrdd Iechyd yn her, yn bennaf oherwydd capasiti y Bwrdd Iechyd.

2.2.6 Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng y tîm Rhyddhau Ysbyty Gwynedd a'r Timau Adnoddau Cymunedol. Yn ddiweddar mae 5 ymarferydd gwaith cymdeithasol wedi lleoli eu hunain am un diwrnod yr wythnos yn Ysbyty Gwynedd o ardaloedd Bangor, Llŷn ac Eifionydd – oherwydd eu bod yn perthyn i'r TAC ardal mae nhw'n dod a'u gwybodaeth o adnoddau a rhwydweithiau lleol yn syth i'r asesiad ysbyty, ble gynt roedd yr ysbyty yn penderfynu ar y lefel gofal heb yr ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol a cefnogaeth posib o'r gymuned ble mae'r claf yn byw ynddi. Gyda cyswllt y 3 i'r TAC mae modd dilyn achosion drwodd o'r ysbyty i'r gymuned. Y gobaith yw bydd unigolion yn gadael yr ysbyty yn brydlon, llai o siawns iddynt ddirywio ac felly yr anghenion gofal yn llai neu o leiaf yn fwy cymesur i'r anghenion, hyn yn osgoi gorddarpariaeth.

***Prosiect 4 - Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth***

2.2.7 Mae Cydlynydd Llwybr Gyrfa Anabledd Dysgu yn gweithio ar draws Gwynedd a Môn gan ddefnyddio arian rhanbarthol, ac rydym hefyd wedi rhyddhau amser 3 Swyddog Cefnogol o fewn y gwasanaeth i fod yn hyrwyddo cyfleon gwaith a chefnogi unigolion i waith cyflogedig. Fel y bydd y mesurau'n ddangos yn hwyrach yn yr adroddiad, mae hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers cychwyn y prosiect yn 2023. Mae angen parhau i sicrhau fod yr unigolion sydd ar y rhaglen yn cael eu cefnogi i ddatblygu i waith cyflogedig gyda chyflog teg maes o law os mai dyma eu dymuniad.


***Prosiect 5 - Llechen Lân***

2.2.8 Mae'r ymchwil ac adroddiad llechen lân wedi ei gwblhau, gyda siroedd eraill Cymru wedi dangos gryn ddiddordeb yn y canfyddiadau. Mae argymhellion yr adroddiad Llechen Lân wedi cychwyn cael eu gweithredu arnyn nhw gyda sawl carreg filltir wedi ei cyrraedd erbyn hyn. Bydd yr argymhellion yn parhau i fod yn rhan o gynllun yr Adran Oedolion fydd yn cael ei datblygu dros y misoedd nesaf wrth i'r Pennaeth newydd ddatblygu ei weledigaeth.

**<u>Gwaith dydd i ddydd yr Adran - perfformiad a mesurau</u>**


2.2.9 Mae'r adran yn parhau gyda'r gwaith i gryfhau eu mesurau perfformiad, gan ddatblygu mesurau sydd wir yn cyfleu perfformiad yr Adran, ac mae'r Adran yn gwneud cynnydd ar ddatblygu'r adroddiad o gyfarfod i gyfarfod. Mae nifer o fesurau gan yr adran, ond eto byddaf yn cyfeirio isod at y rhai sy'n peri pryder neu'n destun llongyfarch yn benodol.

2.2.10




O fewn y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** mae'r rhestr aros ar gyfer derbyn asesiad wedi lleihau. Yn benodol, mae'r rhestr aros am asesiad therapi galwedigaethol wedi lleihau'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, o 104 ar ei uchaf yn fis Hydref 2024, lawr i 27 erbyn mis Awst 2025. Mae recriwtio Therapydd Galwedigaethol yn ardal Bangor wedi lleihau rhestrau aros yn yr ardal ond dal heriau i recriwtio therapyddion yn yr ardal De Meirionnydd gyda thîm Eifionydd yn gorfod helpu gyda achosion. Mae'r Arweinydd Therapi yn rhoi sylw i'r rhestr aros fel un o'i phrif flaenoriaethau.

2.2.11




Ers i mi adrodd y tro diwethaf, roeddwn wedi gweld lleihad yn yr rhestr aros ac y canra o oriau **gofal cartref** oedd ddim yn cael ei ddiwallu. Erbyn diwedd Awst 2025, rydym gweld cynnydd eto yn anffodus, gyda dros 98 o bobl yn disgwyl am becyn newydd o ofal cartref i gymharu a 48 yn Ebrill 2025. Mae heriau wedi codi mewn rhai ardaloedd dros cyfnod heriol yr haf. Mae arian grant wedi galluogi i ni dapraru fwy o becynnau i ardaloedd Tywyn ac Eifionydd am y tro, a gwelwn bod hyn wedi rhoi datrysiad dros dro I'r rhestr aros. Mae ardaloedd eraill sydd dal i beri pryder o ran rhestrau aros, gan gynnwys Dyffryn Nantlle a Bethesda.


2.2.12



Mae’r cynllun cyfleon gwaith yn yr gwasanaeth **Anabledd Dysgu** wedi aros yn eithaf cyson dros y flwyddyn diwethaf. Rwy’n hynod o falch o weld bod 114 yn rhan o’r cynllun cyfleon gwaith erbyn nodi’r niferoedd yma ac yn edrych ymlaen i weld datblygiad pellach y gwasanaeth dros y cyfnod nesaf wrth i ni fuddsoddi yn y gefnogaeth.

2.2.13 Dros y misoedd diwethaf mae 268 o unigolion ar draws y sir wedi mynychu gwasanaethau **Dementia Actif**. Mae’r gwasanaeth yma yn hanfodol i gefnogi unigolion sy’n byw â dementia a’u teuluoedd. Er hynny, mae nifer o’r unigolion sydd yn mynychu’r sesiynau yn unigolion nad ydynt yn byw gyda dementia, sydd yn profi gwerth cymdeithasol y gwaith . Rwy’n hynod o falch o weld y niferoedd yma ac mae’n pwysleisio pa mor hanfodol yw gwasanaethau ataliol sydd yn cynorthwyo pobl i barhau i fyw’n annibynnol ac i gyfrannu o fewn eu cymunedau, gan hefyd roi cefnogaeth gwbl hanfodol i ofalwyr di-dâl.

2.2.14





Mae’r nifer o ymholiadau amddiffyn oedolion sydd wedi eu cwblhau o fewn yr amserlen statudol yn parhau yn gyson gan lwyddo i ymateb yn amserol i gyfeiriadau yn y mwyafrif o achosion ynghanol pwysau gwaith arall. Rydym wedi gweld dirywiad bychan yn y nifer o ymholiadau sydd wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod yn mis Mehefin a Gorffennaf. Mae hyn o ganlyniad i absenoldebau staff o fewn y tîm diogelu yn bennaf, sydd yn golygu bod yr achosion yn syrthio ar yr Arweinyddion Ardal ar ben eu llwyth gwaith arferol nhw. Mae Gweithiwr Cymdeithasol profiadol wedi ymuno a’r tîm diogelu yng nghanol mis Ebrill, ar sail dros dro i gynorthwyo gyda’r ymholiadau. Mae hyn wedi galluogi ni i gynyddu’r capasiti y tîm i ni gwblhau’r ymholiadau o fewn yr amserlen statudol ym mhob achos.

2.2.15 Mae’r nifer sy’n aros am asesiad **Diogelu rhag Amddiffyn Rhyddid (DoLS)** yn parhau yn bryderus gyda 341 o unigolion ar y rhestr aros am asesiad ddiwedd Awst 2025.

Mae'r adran wedi derbyn grant pellach gan y Llywodraeth i gefnogi'r gwaith i leihau'r rhestr aros. Yn dilyn bid llwyddiannus, rydym yn hynod o falch ein bod wedi medru cyflogi 1 Asesydd Budd Gorau yn ddiweddar, ac dal i hyrwyddo am 1 arall. Mae'r swyddog wedi dechrau hyfforddiant diwedd mis Hydref. Mi fydd hyn yn galluogi'r Adran i ddod i'r afael a'r mater yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.


2.2.16 Mae perfformiad y gwasanaeth **Sicrwydd Ansawdd** i'w ganmol wrth iddynt lwyddo i fod wedi cynnal gweithgaredd monitro gyda 100% o ddarparwyr gofal yn y 12 mis diwethaf. Mae hwn yn ffigwr llawer uwch na'r hyn rydan ni wedi'i weld ers tro, ac mae trefniadau gwaith newydd y tîm wedi cyfrannu. Bellach, maen nhw'n cynnal ymweliadau byrrach a chyson yn canolbwyntio ar feysydd penodol gyda darparwyr yn hytrach nag ymweliadau hirfaith gyda bob darparwr i drafod pob agwedd o'u gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau gwell perthynas cydweithio rhwng y gwasanaeth a'r darparwyr gofal ac yn golygu eu bod yn llwyddo i gyrraedd mwy o ddarparwyr. Mae swyddogion hefyd yn gweithio efo lleoliadau tai a chefnogaeth sy'n wynebu heriau, gyda'r nod o gynnig cymorth a chefnogaeth i reolwyr.

2.2.17





Rwyf yn falch o adrodd bod cynnydd wedi bod yn y gyfradd llenwi gwelyau mewn **cartrefi preswyl** mewnol ac mae wedi cynyddu o 81% yn Gorffennaf 2024 i 87% yn Gorffennaf 2025. Mi welwn lleihad wrth fynd mewn i mis Awst 2025, mae hyn oherwydd lefelau staffio wedi gwllwng yn Mhlas Hedd a Plas y Don. Yn ychwanegol, noda'r adran ei fod yn parhau'n heriol i wneud defnydd llawn o'r gwlâu mewn rhai cartrefi oherwydd lefelau staffio a lefel anghenion preswylwyr. Mi fydd y gwasanaeth yn datblygu mesur newydd o ran hyn er mwyn rhoi gwell cyd-destun wrth fonitro'r gyfradd llenwi i'r dyfodol.

2.2.18




Rwy’n falch o adrodd ein bod yn parhau i gynyddu canran o oedolion sy’n derbyn eu gwasanaethau drwy **daliadau uniongyrchol** (17% ddiwedd Medi 2024 wedi cynyddu i 19% erbyn mis Awst 2025). Er fod hyn yn ymddangos yn gynnydd bychan, mae’n ganran o nifer uchel o bobl. Fel nodwyd uchod, mae’r gwaith o ddatblygu’r gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn parhau. Bellach mae unrhyw becyn newydd yn cael cynnig cyfrif digidol, gyfwerth a ‘waled rhithiol’ er mwyn gallu rheoli eu pecynnau taliadau uniongyrchol yn haws. Mae effaith y gwaith hyrwyddo a chyd-weithio gyda'r timau gwaith cymdeithasol yn cychwyn dangos, ond mae angen parhau a datblygu ymhellach. Byddwn yn rhannu holiadur efo derbynwyr taliadau uniongyrchol yn fuan, gyda'r bwriad o ddod a grŵp cyd gynhyrchu at ei gilydd i drafod sut gallwn wella'r gwasanaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael ar lawr gwlad.

2.2.19




Yn yr un modd, rydym wedi bod yn rhoi sylw i'r gwasanaeth **teleofal** er mwyn tacluso'r trefniadau a sicrhau cysondeb o safbwynt cyfraniad ariannol unigolion tuag at y gwasanaeth. Mae oddeutu 80% o ddyfeisiadau teleofal Gwynedd wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol. Disgwylir cwblhau'r trosglwyddiadau erbyn diwedd Rhagfyr 2025. Erbyn Awst 2025, mae 1553 o bobl yn talu am y gwasanaeth. Rydym yn parhau i fynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaeth a thechnoleg a alluoga gofal yn fwy cyffredinol.

**2.3 Archwiliadau Allanol**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Adran Oedolion wedi bod yn destun sawl archwiliad allanol – yn bennaf gan Arolygaeth Gofal Cymru (ar wasanaethau'r Adran yn gyffredinol), ac Archwilio Cymru (ar wasanaethau Gofal Cartref yn benodol). Adroddwyd ar ganfyddiadau y ddwy archwiliad yma i'r pwyllgor craffu ar y 20/2/25, ac mae'r argymhellion wrthi yn cael eu gweithredu. Byddwn yn diweddaru aelodau ar y cynnydd yn unol a'r angen.

**3. Ymgynghori**

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gyda'r Cyfarwyddwr, y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

Atodiad 1 -
Adroddiadau cynnydc

**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

Atodiad 2 -
Mesuryddion Perfforr

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

## Gwynedd Ofalgar: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad) | Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | **Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol** | 1. Cyflwyno brîff ac achos busnes i'r Adran Tai ac Eiddo ar gyfer TGY yn ardal Caernarfon, a llunio amserlen ar gyfer y gwaith. | 1. Briff cychwynnol wedi ei gyflwyno, a Bwrdd Prosiect mewn lle. | 1 Ydi |
| | | 2. Sgopio'r angen am ddarpariaeth ychwanegol o Dai Gofal ar safle Penyberth, Pwllheli | 2. | 2 Ydi |
| | | 3. Dod i benderfyniad ar ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Dolgellau | 3. Trafodaethau wedi cychwyn gyda Tai ac Eiddo, disgwyl y dystiolaeth o waith yr Housing LIN i gefnogi. | 3 Ydi |
| | | 4. Cwblhau a chyflwyno achos busnes cychwynnol ar gyfer cartref nyrsio newydd Penyberth. | 4. Disgwylir cyflwyno i'r cabinet cyn y Nadolig 2025. | 4 Ydi |
| | | 5. Llunio dadansoddiad llawn o'n holl gartrefi mewnol a fydd yn manylu ar y buddsoddiad fyddai ei angen ynddynt er mwyn cwrdd â safonau modern. | 5. Mae briff wedi ei baratoi ar gyfer comisiynu'r darn gwaith hwn. Comisiwn ar y ffordd allan ar Sell2Wales. | 5. Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 6. Cwblhau 2 dŷ a chefnogaeth newydd.<br><br>7. Bydd gennym adroddiad yn crynhoi'r galw am lety gofal yng Ngwynedd dros yr 20 mlynedd nesaf, wedi'i lunio ar y cyd efo'r Adran Tai ac Eiddo. | 6.<br><br>7. Adroddiad wedi ei gomisiynu gan Housing LIN, i'w gyflwyno Ionawr 2026. | 6 Ydi<br><br>7. Ydi |
| **Oedolion** | **Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal** | 1. Byddwn wedi hyrwyddo'r defnydd o system Dewis Cymru ar draws Gwynedd, ac wedi hyfforddi golygwyr ar eu rôl yn cynorthwyo gyda chynnal y system.<br><br>2. Datblygu rhaglen hyrwyddo 'Helpu'n Hun', Teleofal, Taliadau Uniongyrchol ac opsiynau eraill sy'n cefnogi Byw'n Dda.<br><br>3. Bydd dewislen o ddyfeisiadau teleofal ar gael a bydd rhain yn cael eu hyrwyddo'n eang ar y wefan, yn y cyfryngau a thrwy'r timau gwaith cymdeithasol.<br><br>4. Byddwn wedi trosglwyddo'r holl unigolion sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol draw i system talu newydd (cardiau cyflogi). | 1. Grwp datblygu wedi cwrdd ac mae cynllun mewn lle.<br><br>2. Edrych i benodi arweinydd i arwain ar y rhaglen.<br><br>3. Straeon 'newyddion da' wedi bod yn y wasg, ac yn edrych ar ymgyrch papurau bro.<br><br>4. Mae unrhyw becyn newydd yn cael ei ddarparu ar y system gardiau bellach, ond bydd trosglwyddo y pecynnau hanesyddol cyn Mawrth yn her (ac yn ddibynol ar ddewis unigolion). | 1. Ydi<br><br>2. Ydi<br><br>3. Ydi<br><br>4. Nac Ydi |
| **Oedolion** | **Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi** | 1. Byddwn wedi diweddaru'n dogfennau asesu i sicrhau eu bod yn darparu data cywir a dibynadwy ar gefnogaeth gofalwyr di-dâl. | 1. Buddsoddi amser swyddog penodol yn cefnogi'r timau i fod yn rhoi sylw i faterion gofalwyr. | 1. Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd** | 2. Byddwn wedi datblygu trefn i gefnogi gofalwyr di-dal i gynllunio ymlaen ar gyfer gofalu am eu hanwyliaid mewn argyfwng, gan gynnwys ffurflen safonol i'w llenwi a man cofnodi pwrpasol ar system gofal cymdeithasol newydd Mosaic.<br><br>3. Byddwn wedi gweithredu rhaglen waith i leihau ein rhestrau aros gofal cartref gan sicrhau nad oes unrhyw un yn aros mwy na 91 diwrnod am ofal cartref. | 2. Fydd system Mosaic ddim yn weithredol erbyn diwedd 2025-26 bellach, ond mi fyddwn wedi datblygu ffurflen /cynllun.<br><br>3. Cynllun mewn lle i flaenoriaethu a hybu'r ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd lle mae'r rhestrau aros uchaf, ond bydd cwrdd a'r garreg filltir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn her. | 2. Ydi<br><br>3. Nac Ydi |
| **Oedolion** | **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned** | 1. Byddwn wedi cynnal adolygiad o ddrysau ffrynt Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ac wedi penderfynu ar y model gorau ar gyfer ein gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i'r dyfodol.<br><br>2. Bydd y Timau Adnoddau Cymunedol wedi dod i benderfyniad ar y trefniadau cydweithio a chydleoli fwyaf addas ymhob is-ardal, a bydd darparwyr gofal cartref yn rhan creiddiol o'r timau hyn ar draws y sir.<br><br>3. Byddwn wedi treialu rôl Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol wedi'i lleoli gyda'r Cydlynwyr Rhyddhau Ysbyty er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion ac atal cyfeiriadau anaddas rhag cyrraedd ein timau adnoddau cymunedol. | 1. Wedi cynnal adolygiad. Gwerthuso opsiynau a dadansoddi pellach cyn cytuno ar dreialu model newydd<br><br>2. Y trefniadau cydleoli, ble mae hynny'n bosib, wedi ei gwblhau. Trefniadau cyfarfod a chyfathrebu rheolaidd yn parhau i fod angen sylw mewn rhai ardaloedd.<br><br>3. Y gwaith treialu wedi gorffen a'r trefniant 'in reach' 4 TAC yn parhau ac yn llwyddo i atal galw di-angen o'r ysbyty ac yn galluogi'r TAC i flaenoriaethu llawer mwy effeithiol. | 1 ydi<br><br>2 Ydi<br><br>3 Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 4. Byddwn wedi ailstrwythuro rheolaeth ein timau adnoddau cymunedol i gefnogi'r ffordd o weithio sy'n seiliedig ar is-ardaloedd.<br><br>5. Byddwn wedi cynnal adolygiad o'n trefniadau cydweithio newydd gyda'r timau iechyd meddwl cymunedol i sicrhau eu bod yn gadarn (blwyddyn wedi'u sefydlu).<br><br>6. Byddwn, ar y cyd â Mantell Gwynedd, wedi cwblhau adolygiad o'r ffordd yr ydym yn comisiynu gwasanaethau 3ydd sector i sicrhau cysondeb a'r gwerth mwyaf ar draws y sir.<br><br>7. Byddwn wedi datblygu strategaeth gomisiynu sy'n sicrhau ein bod yn deall anghenion gofal a chefnogaeth trigolion Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf ac yn gallu datblygu marchnad amrywiol gynaliadwy i gwrdd â'r angen. | 4. Wedi cwblhau<br><br>5.<br><br>6. Gwaith yn parhau, wedi gweithio ar y cyd efo Mantell Gwynedd ar werth cymdeithasol, gan edrych ar dri mudiad i gychwyn.<br><br>7. Mae'r gwaith yn digwydd, ond bydd cwrdd a'r garreg filltir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn her yn sgil yr heriau sydd angen eu datrys yn y maes gofal cartref yn benodol. | 4 ydi<br><br>5. Ydi<br><br>6. Ydi<br><br>7. Nac Ydi |
| **Oedolion** | **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth** | 1. Bydd y gwaith datblygu ar adeilad newydd Dolfeurig yn mynd rhagddo'n ystod 25-26, gyda'r bwriad o agor erbyn 2027.<br><br>2. Sicrhau adnodd tymor hir ar gyfer swyddogion cefnogi cyflogaeth fel bod y gwaith yma'n dod yn rhan o waith parhaol y gwasanaeth.<br><br>3. Datblygu busnesau i gyflogi unigolion ag anableddau dysgu o fewn y Cyngor. | 1. Gwaith yn mynd ymlaen yn unol a'r amserlen.<br><br>2.<br><br>3. | 1. Ydi<br><br>2. Ydi<br><br>3. Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 4. Byddwn, ar y cyd â'n partneriaid, wedi datblygu strategaeth cyfleon cymunedol ar gyfer anableddau dysgu yng Ngwynedd. | 4. Wedi dechrau gwaith mapio ar y cyd efo Ynys Môn. Bwriad cwblhau gwaith rhanbarthol. Yn rhagweld bydd yn gwaith yma yn cymryd amser I'w gwblhau | 4. Nac Ydi |

# Trosolwg o berfformiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Awst 2025

| Mesur | Gwerth | Maes | Statws |
|---|---|---|---|
| Ydan ni wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig?* | 93% | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Oren |
| Unigolyn sy'n aros dros 91 diwrnod am asesiad anghenion gofal | 41 | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Coch |
| Asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn y mis diwethaf | 118 | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Oren |
| Canran o oriau o ofal cartref sydd heb ei ddiwallu | 12% | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Oren |
| Nifer sydd yn derbyn gofal cartref | 797 | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Oren |
| Unigolion sy'n aros dros 28 diwrnod am ofal cartref | 89 | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Coch |
| Ydan ni wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig?* | 100% | Anableddau Dysgu | Gwyrdd |
| Nifer wedi'u hadnabod i fod angen cefnogaeth lletya yn y flwyddyn nesaf | 5 | Anableddau Dysgu | Gwyrdd |
| Nifer o unigolion sydd ar y llwybr cyfleon gwaith | 118 | Anableddau Dysgu | Gwyrdd |
| Asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn y mis diwethaf | 20 | Iechyd Meddwl | Oren |
| Unioglyn sy'n aros dros 91 diwrnod am asesiad anghenion gofal | 0 | Iechyd Meddwl | Gwyrdd |

**Ydi'r Gwasanaeth yn llwyddo i ddiwallu'r angen?**

- Gwyrdd: Ydy, yn gyson
- Oren: Ydi yn rhannol, yn anghyson neu gydag oedi
- Coch: Oedi hir neu diffyg gallu darparu

**Dylid nodi mai sampl o unigolion sydd wedi derbyn adolygiad gofal sydd yma. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys unigolion sy'n aros am wasanaeth.*

# Trosolwg o berfformiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Awst 2025

| Mesur | Gwerth | Maes |
|---|---|---|
| O ymholiadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau o fewn 7 diwrnod | 100% | Diogelu |
| O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle mae'r perygl wedi'i reoli | 100% | Diogelu |
| Nifer o bobl ar y rhestr aros am asesiad DoLS | 341 | Diogelu |
| Canran o ddarparwyr gofal wedi'u monitro yn ystod y 12 mis diwethaf | 100% | Sicrwydd Ansawdd |
| O welyau preswyl sy'n cael eu defnyddio yn ein cartrefi gofal | 84% | Darparu |
| Nifer mynychwyr dementia actif | 268 | Cefnogi Iechyd a Llesiant |
| Defnyddwyr teleofal sy'n talu'r ffi wythnosol | 1532 | Busnes |
| Canran o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth drwy daliadau uniongyrchol | 19% | Busnes |


**Ydi'r Gwasanaeth yn llwyddo i ddiwallu'r angen?**

- Ydy, yn gyson
- Ydi yn rhannol, yn anghyson neu gydag oedi
- Oedi hir neu diffyg gallu darparu


## Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

### Canran o adolygiadau lle y mae'r unigolyn wedi nodi ein bod wedi llwyddo i'w cefnogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt




### A yw'r unigolion yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi i fedru cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?





Fel sy'n batrwm blynyddol, mae nifer yr adolygiadau a gwblhawyd wedi gostwng yn sylweddol dros fisoedd yr Haf, Timau yn blaenoriaethu gwaith brys yn sgil gwyliau staff, ac anawsterau staffio mewn rhai Timau. Mae canran yr unigolion bodlon ar gynnydd a neb wedi datgan nad oeddem wedi llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt a nifer fechan wedi datgan iddynt gael eu bodloni yn rhannol a'r rhesymau am hyn yn amrywiol. Llawer iawn o'r adolygiadau ble mae 'rhannol' wedi nodi yn seiliedig ar amgylchiadau personol yr unigolyn yn hytrach nag anghenion heb ei diwallu gan y gwasanaeth ee galar, tai anaddas, diffyg hy der, problemau iechyd meddwl. Mae ambell sylwad ar ddiffyg gwasanaeth cymdeithasu, ac ambell yn un yn dygymod a'r ffaith nad yw dychwelyd adref yn opsiwn bellach.


# Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol - Sian Edith Jones

*Galluogi oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Pa mor hir mae unigolion wedi bod yn disgwyl am asesiad anghenion gofal




## Nifer o asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn ystod y mis




## Tu ôl i'r Perfformiad:

O'r data gwelwn fod y niferoedd sy'n aros am asesiad ar gynnydd erbyn mis Awst a'r nifer asesiadau wedi gostwng, y niferoedd reit gyfartal rhwng y 3 rôl Ymarferydd GC, Therapydd Galwedigaethol (ThG) a Gweithiwr Cymdeith asol (GC), y sefyllfa yma yn batrwm blynyddol dros gyfnod yr Haf.

Mae problemau staffio yn parhau mewn rhai Timau, gyda TAC Caernarfon yn wynebu heriau penodol. Mae goleuni ar y gorwel, gweithiwr cymdeithasol ac ymarferydd yn cychwyn mis Medi, y ddwy yn ddibrofiad, sy'n golygu bydd y rheolwr yn cefnogi am gyfnod a ni fyddent yn debygol o gymryd llwyth achos llawn dros y misoedd cyntaf.


Sefyllfa Therapi Galwedigaethol yn parhau yn amrywiol iawn ar draws Gwynedd. Llŷn ac Eifionydd yn sefydlog ar hyn o bryd, a rhestrau aros uwch yng Nghaernarfon a Bangor. De Meirionnydd wedi methu recriwtio ThG ers tro bellach a Tîm Eifionydd wedi cefnogi dros dro gyda'r achosion, ac swydd wag ThG De Meirionnydd allan ar hysbys a phryder na fydd diddordeb eto.

Mae rhestr aros De Meirionnydd wedi gostwng yn sylweddol yn ddiweddar yn dilyn prynu gwasanaeth gan asiant preifat Flex360. Cwblhawyd 48 asesiad ThG ganddynt dros yr Haf, mae hyn wedi helpu yn ymarferol ac wedi lle ihau straen ar y tîm. Pryder nawr yw bydd y rhestr aros ar gynnydd eto gan nad oes diddordeb wedi bod yn y swydd Uwch ThG. Mae gennym hefyd Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol ar fin cymhwyso yn Ionawr 2026.


# Rhestrau Aros Gofal Cartref  - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Y canran o oriau gofal cartref sydd heb eu diwallu




## Niferoedd sy'n derbyn gofal cartref (melyn) a'r nifer sydd ar y rhestr aros (coch)




Yn anffodus gwelwn fod y rhestr aros ar gynnydd a'r cyfnod mae rhai unigolion yn aros yn bryderus.

Rydym wedi gael cyfnodau heriol yn ardal Bethesda dros yr haf ac wedi bod angen darparwyr eraill fel argyfwng i gefnogi er mwyn cadw ar dop pecynnau gofal cartref ac roedd cydweithio gwych wedi digwydd o dan yr amgylchiadau. Mae pryderon eraill dal i barhau mewn ardaloedd eraill hefyd . Rydym wedi gorfod rhannu pecynnau allan rhwng ardaloedd eraill i gadw ar dop yr argaeledd. Llwyddwyd i drosglwyddo pob pecyn erbyn diwedd Awst a'r rhestr aros wedi gostwng erbyn hyn.

Mae yna dal arian i barhau i gomisiynu daprarwyr ychwaneol yn Nhywyn ac Eifionydd, ac mae hyn wedi galluogi datrysiad dros dro i'r rhestr aros. Gobeitihiwn fod hyn yn ddatrysiad mwy hir dymor gyda arian y grant.


Mae sefyllfa yn Nyffryn Nantlle dal yn parhau yn heriol ac rydym dal i drafod gyda draprwyr mewn is-ardaleoed cyfagos er mwyn rhyddhau mwy o ofal i Ddyffryn Nantlle.

Mae sgyrsiau wedi digywdd yn ddiweddar gyda darparu Mewnol i edrych ar opsiynau posib i ryddhau capasiti oriau gofal cartref. Mae cydweithio da iawn yn digwydd yn Eifionydd rhwng y TAC a'r Goruchwyliwr Gofal Cartref, ac mae hyn yn gwersi i'w dysgu yma ar gyfer pob ardal. Bwriad felly yw cychwyn cyfarfodydd penodol ar gyfer trafod y rhestr aros, sicrhau bod y rhain yn digwydd yn wythnosol a bod rheolwyr Tîm a goruchwylwyr yn rhoi blaenoriaeth i hyn.


# Rhestrau Aros Gofal Cartref - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*


## Nifer ar y rhestr aros am ofal cartref




## Am ba mor hir mae unigolyn wedi disgwyl hyd yma





## Nifer ar y rhestr aros am becyn newydd gofal cartref



# Darparu Gofal Preswyl Mewnol - Rhion Glyn

*Galluogi oedolion Gwynedd i "fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*




Mae'r gyfradd llenwi wedi bod ar ei uchaf ers peth amser yn ystod misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf eleni, ond yna gwelwn ostyngiad i 84% erbyn diwedd Awst. Mae'r canrannau hyn yn cynnwys yr Uned Dementia ym Mhlas Hedd (x7 gwely) nad sy'n bosib ei agor gan fod angen ail ddylunio cynlluniau argyfwng tan yn y Cartref. Rydym yn ar hyn o bryd yn disgwyl amserlen ar gyfer gwneud yr addasiadau angenrheidiol.

Mae gwaith ar y gweill i drydaneiddio ac ail wneud y gegin ym Mhlas Ogwen ble mae angen cadw rhywfaint o wlâu yn wag er mwyn hwyluso'r gwaith sylweddol sydd i'w wneud. Rydym wedi derbyn cadarnhad fod Rheolwr Prosiect wedi ei benodi i arwain y gwaith ar ran y contractiwr.

Mesur datblygol: Lefelau staffio a lefelau anghenion

Mae'r tabl hwn yn dangos lefelau staffio fesul cartref ar y 31.08.25, a'r lefelau a gyflwynwyd i'r Cyfarfod Perfformiad diwethaf (gwybodaeth ar y 31.03.25). Cyfrifir y canrannau hyn ar sail swyddi gwag a ble mae aelodau staff sydd â chytundeb oriau penodol i ffwrdd yn sâl tymor hir (cyfnod hirach na 28 diwrnod). Nid yw'r wybodaeth yn cynnwys lefelau staff achlysurol, salwch tymor byr neu sefyllfaoedd ble mae staff wedi eu harddel o'r gwaith.


Fe welwn wrth gymharu'r ddau gyfnod fod y sefyllfa yn fwy heriol ar hyn o bryd, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu hefyd wrth edrych ar gyfartaledd y ddau gyfnod (91% ym mis Mawrth a 89% yn Medi). Mae'r sefyllfa yn hynod heriol ym Mhlas Hedd ar hyn o bryd ac mae ymgyrch recriwtio benodol yn mynd rhagddo ym Mangor.

| | Lefelau staffio (31/03/2025) | Lefelau staffio (31/08/2025) |
|---|---|---|
| Plas Hedd | 87% | 74% |
| Plas Ogwen | 86% | 95% |
| Plas Pengwaith | 90% | 90% |
| Plas Maesincla | 100% | 94% |
| Plas Gwilym | 96% | 91% |
| Plas Hafan | 96% | 87% |
| Plas y Don | 84% | 77% |
| Bryn Blodau | 90% | 97% |
| Cefn Rodyn | 97% | 92% |
| Hafod Mawddach | 95% | 84% |
| Llys Cadfan | 84% | 91% |


# Anableddau Dysgu - Llinos Rowlands

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Canran yr adolygiadau lle y mae'r unigolyn wedi nodi ein bod wedi llwyddo i'w cefnogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig




## A yw'r unigolion yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi i fedru cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?




## Tu ôl i'r perfformiad:

Mae'r gwasanaeth yn parhau i roi blaenoriaeth i adolygu pobl sy’n derbyn tai a chefnogaeth.


Bu’r cyfnod gwyliau yn effeithio nifer yr adolygiadau am gyfnod yn ystod yr haf ond mae'r niferoedd wedi codi yn ôl wrth i bawb ddychwelyd i’w gwaith.

Ar derfyn y cyfnod mae pawb wedi cyflawni'r hyn sy’n bwysig iddynt yn llawn; bu ambell enghraifft cyn hynny o gyflawni yn rhannol yn unig. Mae'r rhesymau am fethu cyflawni eu dyheadau yn amrywiol ac nid oes thema benodol yn codi e.e. person wedi symud i gartref newydd angen setlo, iechyd unigolyn yn cyfyngu ar yr hyn mae yn gallu gwneud, problem perthynas garwriaethol yn effeithio lles person, neu rhywun yn aros i gael symud i fyw yn annibynnol.

# Anableddau Dysgu - Llinos Rowlands

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

Nifer o unigolion ag anabledd dysgu sydd ag anghenion lletya o fewn y flwyddyn nesaf





Tu ôl i'r perfformiad:

Mae'r nifer ar y rhestr llety wedi lleihau dros y misoedd diwethaf gan fod unigolion wedi sicrhau llety. Yn dilyn trafodaethau cadarnhaol efo Adra, sicrhawyd 2 eiddo ar gyfer llety a chefnogaeth i 4 unigolyn yn ardal Bangor.

Mae'r unigolion bellach wedi symud i mewn ac mae pethau'n symud ymlaen yn dda.

Bydd unigolion yn symud yn fuan i'r tai newydd yn Harlech a Phenrhyndeudraeth

Nifer o unigolion sydd gydag anableddau dysgu sydd mewn cyfleon gwaith




Tu ôl i'r perfformiad:


Mae'r canran sydd yn y cyfleoedd gwaith yn is yn y cyfnod yma ond mae disgwyl bydd hyn yn codi erbyn y chwarter nesaf pan fydd unigolion yn symud ymlaen o'r ysgol a cholegau.

Dyma fideo Guto:


## Iechyd Meddwl - Mannon Trappe

*Galluogi oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

### Pa mor hir mae unigolion wedi bod yn disgwyl am asesiad anghenion gofal




### Nifer o asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn ystod y mis





Mae wedi ei amlygu eto bod gweithwyr yn nodi 'complete' ar achosion ond nid ydynt yn cael eu cau. O'r niferoedd sy'n ymddangos eu bod yn aros 31+ diwrnod am asesiad, mae pob unigolyn wedi cael eu hasesu; 2 o'r achosion hyn angen cael eu dyrannu i weithwyr o ran adolygiadau a.117 ac mae 2 yn aros am wybodaeth gan asiantaethau eraill cyn bod modd eu cau. Mae un achos yn aros am ymateb os yw'r unigolyn eisiau derbyn asesiad gofalwr. Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae'r niferoedd yma yn agored i dîm De Gwynedd ble nad oes gweinyddwr, ac mae hyn wedi effeithio'r gallu tîm i ddiweddaru'r data.

Mae asesiadau am ofal cymdeithasol yn digwydd yn amserol o fewn 90 diwrnod ym mhob achos.

# Llesiant - *Cefnogi pobl i fyw bywyd da yn eu cymuned* - *Rheolwr - Alun Gwilym Williams*

Dementia Actif Gwynedd




Dyma fideo yn dangos esiamplau o'r effaith mae Dementia Actif wedi ei gael ar bobl dros y misoedd diwethaf

## Tu ôl i'r Perfformiad

Mae'r niferoedd o aelodau sydd wedi bod yn mynychu'r dosbarthiadau wythnosol dros gyfnod yr haf wedi aros yn gyson, serch ymrwymiadau teuluol fel gofalu am wyrion, gwyliau a digwyddiadau eraill.

Lansiwyd dosbarth newydd ym mis Mehefin yn y Neuadd Gymunedol yn Llanberis yn dilyn trafodaethau gyda gweithwyr proffesiynol am bontio'r bwlch yn y gwasanaeth yn yr ardal. Roedd y dechrau yn araf ond erbyn mis Awst roedd 10 aelod wedi cofrestru gyda'r potensial am fwy.

Yn ystod Wythnos Gweithredu Dementia 19-23/05/2025 cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd gan gynnwys diwrnod codi ymwybyddiaeth dementia yn Nhywyn mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd a Heddlu Gogledd Cymru yn dangos y 5 Ffilm sy'n darlunio Byw'n well gyda Dementia. Cymerodd cyfanswm o dros 160 o bobl ran yn y digwyddiadau dros yr wythnos.


Mae staff wedi parhau i gysylltu ag ysgolion lleol sy'n cynnig sesiwn codi ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia a sesiynau gweithgareddau.

Mae Tywyn wedi derbyn statws Cymunedau Cyfeillgar i Ddementia trwy gynllun Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ac wedi nodi'r angen fel rhan o'r cynllun gweithredu i gychwyn cynllun trafnidiaeth wirfoddol gymunedol ar gyfer yr ardal. Mae'r cydweithio rhwng Dementia Actif, aelodau grŵp llywio CCD Tywyn, yr Hwb Cymunedol, Swyddog Trafnidiaeth Gymunedol yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, sefydliad Trafnidiaeth Gymunedol a Medrwn Môn wedi galluogi cynlluniau positif ar y gweill i sefydlu cynllun i'w alw'n TAITH – Cynllun Trafnidiaeth Gwirfoddol Cymunedol Tywyn a'r ardal.


## Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod.*

Canran ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol (7 diwrnod gwaith)




Nifer o gyfeiriadau diogelu newydd yn y mis





Ers mis Mehefin, mae'r Adran wedi cyflogi Swyddog Diogelu ychwanegol ar sail rhan amser dros dro. Mae'r adnodd ychwanegol wedi profi'n amhrisiadwy er mwyn ein galluogi i gwblhau'r ymholiadau a.126 yn amserol.

Er bod cynnydd gweledol yn ein gallu i ymateb i ymholiadau o fewn yr amser statudol, mae cymhlethdod cynyddol yr achosion sy'n ein cyrraedd, ynghyd a chyfnod gwyliau dros yr haf yn golygu nad oes modd cyflawni ar hyn yn gyson.

## Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod.*

O'r cyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd, y canran lle y mae'r perygl wedi'i reoli





### Tu ôl i'r perfformiad:

Mae cyfarwyddyd wedi mynd allan i'r Arweinyddion er mwyn sicrhau bod y ffurflenni diogelu yn cael eu cau ar ddiwedd y broses sy'n golygu bod cynnydd yn y nifer o achosion ble mae'r risg wedi ei reoli.


# Hyfforddiant Diogelu

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod.*

## Canran o bobl o fewn yr adran sydd wedi cwblhau'r e-modiwl 'Diogelu'





## Canran o bobl o fewn yr adran sydd wedi cwblhau'r e-modiwl 'Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig, a Thrais Rhywiol (VAWDASV)




# Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod*

Nifer ar y rhestr aros am asesiad DoLS a pha mor hir maent wedi bod yn aros - fesul mis




Nifer ar y rhestr aros o'i gymharu â'r nifer sydd ag awdurdodiad DoLS cyfredol - fesul mis






## Tu ôl i'r perfformiad:

Mae cynnydd i'w weld yn y nifer o achosion sydd wedi eu hawdurdodi ond mae'r rhestr aros yn parhau i fod yn hir. Mae'r rhestr aros yn cynnwys dros 100 achos Llys Gwarchod. Mae'r Cydlynydd yn defnyddio arian grant y llywodraeth i gomisiynu asiantaeth i gwblhau'r asesiadau. Cyflwynwyd bid lwyddiannus i gyflogi 2 Asesydd Budd Gorau parhaol. Yn anffodus, mae recriwtio i'r swyddi hyn wedi bod yn heriol iawn; mae'r swyddi wedi cael eu hysbysebu 6 gwaith ac rydym bellach yn cynnig cefnogi unrhyw un fyddai'n cael eu hapwyntio i gael y cymhwyster asesydd budd gorau. Rydym bellach wedi llwyddo i gyflogi un person i'r swydd ond ni fydd modd iddi gychwyn nes ei bod wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol diwedd mis Hydref.

# Sicrwydd Ansawdd - Mannon Trappe

*Sicrhau bod y gofal sy'n cael ei gomisiynu yn ddiogel ac o ansawdd.*





## Tu ôl i'r perfformiad

Yn ystod y chwarter diwethaf, mae’r tîm wedi parhau i fonitro cartrefi preswyl a chyd-weithio hefo iechyd i fonitro'r cartrefi nyrsio. Mae’r swyddogion hefyd yn parhau i weithio hefo lleoliadau tai a chefnogaeth sy'n wynebu heriau, gyda’r nôd o gynnig cymorth a chefnogaeth i’r rheolwr fedru gweithio ar y gwelliannau sydd angen gyda'r gobaith o ddatrys y materion yn fuan. Mae’r gwaith o fonitro gofal cymunedol wedi symud yn ei flaen, gyda gweithwyr proffesiynol yn rhoi adborth ar eu profiadau gyda'r darparwr, ac mae ymweliadau â defnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned wedi cael eu cynnal i gasglu eu adborth nhw. Maent hefyd  wedi  monitro prif swyddfeydd a lleoliadau tai a chefnogaeth anableddau dysgu.  Mae’r gwaith hwn yn gysylltiedig â gwaith o ddyrannu cytundebau newydd i’r darparwyr.

## Busnes - Alun Gwilym Williams

*Darparu arweiniad a chefnogaeth busnes i'r gwasanaethau cymdeithasol*

### Defnyddwyr teleofal sydd yn talu'r ffi wythnosol





Tu ôl i'r Perfformiad:

Mae oddeutu 80% o ddyfeisiadau teleofal Gwynedd wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol. Disgwylir cwblhau'r trosglwyddiad erbyn diwedd Rhagfyr 2025.

Mae defnydd y Cyngor o'r system 'Lilli' (synwyryddion yn y cartref) wedi bod yn destyn sylw yn y wasg yn ddiweddar - [Welsh council and health board roll out Lilli's AI technology] fel enghraifft o arloesi, a byddwn yn parhau i dreialu ffyrdd newydd o gefnogi unigolion yn eu cartrefi, a trio sicrhau fod y gweithlu yn hyderus yn cyflwyno'r dechnoleg yma fel opsiwn i dynnu pwysau oddi ar wasanaethau gofal traddodiadol.

### Y canran o bobl sy'n derbyn gwasanaeth drwy daliadau uniongyrchol




Tu ôl i'r Perfformiad:

Mae cynnydd bychan wedi bod yn y canran o becynnau gofal cartref/gofal cefnogol sy'n cael eu darparu drwy daliadau uniongyrchol. Mae effaith y gwaith hyrwyddo a chyd-weithio gyda'r timau gwaith cymdeithasol yn cychwyn dangos, ond mae angen parhau a datblygu ymhellach. Byddwn yn rhannu holiadur efo derbynwyr taliadau uniongyrchol yn fuan, gyda'r bwriad o ddod a grŵp cyd gynhyrchu at ei gilydd i drafod sut gallwn wella'r gwasanaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael ar lawr gwlad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 20 Tachwedd, 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| **AWDUR** | Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Paul Rowlinson |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**2. Cefndir / Cyd-destun**

**2.1 Cefndir / Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai ac Eiddo. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Medi 2025, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill eleni. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

**2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad**

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**
Mae cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd i brosiectau'r Adran o fewn blaenoriaeth wella Gwynedd Glyd a Gwynedd Effeithlon i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae'r cynnydd yn dda iawn ar y cyfan, gyda sawl carreg filltir naill ai wedi'i chyrraedd yn barod neu ar drac i gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Hoffwn dynnu sylw at rai yn benodol (gyda'r rhifau yn cyfateb i'r rhifau yn y tabl yn Atodiad 1):

**Gwynedd Glyd: Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol**

1. Mae'r uchelgais a osodwyd i godi 500 o dai cymdeithasol trwy'r Rhaglen Adeiladu Tai Cymdeithasol a'r bartneriaeth gyda'r Cymdeithasau Tai erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn gwneud cynnydd da, gyda 433 o unedau wedi'u hadeiladu hyd yma.
2. Mae cynllun Tŷ Gwynedd yn gwneud cynnydd da gyda dau o'r datblygiadau ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae datblygiad Dôl Afon Goch (sef safle hen lyfrgell Llanberis) bron â chwblhau a'r broses osod wrthi'n mynd rhagddi. Mae hen safle

Ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor hefyd yn gwneud cynnydd da gyda'r gwaith strwythurol ar y gweill.

3. Mae'r Cynllun Prynu i Osod wedi llwyddo i brynu 51 o dai hyd yma, ac wedi gosod 20 ohonynt i bobl leol. Mae 6 arall wrthi'n cael eu gosod neu'n cael eu marchnata, a gwaith uwchraddio angenrheidiol yn digwydd ar 16 o dai eraill, gyda disgwyl i waith ar 13 o'r rheiny gwblhau erbyn diwedd Tachwedd.
4. Mae'r cynlluniau tai gwag yn llwyddiannus iawn, gyda 136 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd bellach trwy gymorth grantiau i berchnogion tai gwag – 28 o'r rheiny ers i ni adrodd ddiwethaf. Mae hyn yn cyrraedd y targed a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

**Gwynedd Glyd: Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd**

2. Mae'r Gwasanaeth Ynni yn helpu cannoedd o bobl gyda'u sefyllfa ynni, ac mae talebau ynni yn rhan fawr o'r gefnogaeth honno. Dros y misoedd diwethaf mae 117 o dalebau ynni gwerth £3,500 wedi'u dosbarthu i drigolion mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu. Ers dechrau'r cynllun mae 5,788 o dalebau ynni wedi'u rhannu, gwerth £239,565. Hoffwn nodi fod y cymdeithasau tai wedi dechrau cymryd galwadau ar gyfer eu tenantiaid eu hunain, sydd wedi golygu gostyngiad yn y niferoedd sydd yn cael eu prosesu gan y tîm ac mae hyn yn debygol o barhau i'r dyfodol.
3. Mae'r tîm yn brysur hefyd yn cynnal cynadleddau a digwyddiadau hyrwyddo, ymweliadau cartref ac yn cyfeirio unigolion at gymorth ychwanegol megis banciau bwyd, Age Cymru, CAB ac ati. Mae dwy gynhadledd eisoes wedi'u cynnal, 10 o ymweliadau cartref wedi digwydd a 40 o drigolion wedi'u cyfeirio at gymorth ychwanegol.

**Gwynedd Glyd: Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

1. Symudodd unigolion i mewn i 137 Stryd Fawr Bangor ym mis Awst a Medi 2025, a rhagwelir y bydd yr unedau'n llawn erbyn Hydref 2025. Mae cwmni wedi'i benodi i gwblhau gwaith mecanyddol a thrydanol ar hen Adeilad y Goron, Penrallt.
4. Disgwylir cwblhau pryniant adeilad Tŷ Glyn, Bangor ddechrau Hydref. Bydd yr Adran yn gwneud mân addasiadau i'r adeilad cyn anelu i'w agor yn ystod 2026.

**Gwynedd Effeithlon: Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol**

1. Cafwyd cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i addasu hicynau hawliau dirprwyedig ar gyfer caffael a gwaredu eiddo a bydd yr Adran yn cyfarch y newidiadau hyn yn y Polisïau diwygiedig.

Rydw i'n falch bod 5 o'r cerrig milltir eisoes wedi'u cwblhau, a phob carreg filltir arall ar drac i gyflawni yn unol â'r uchelgais erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Mae’r Adran yn ymdrin â sawl maes ac yn cynnig gwasanaethau amrywiol i bobl Gwynedd, o wasanaethau rheng-flaen allweddol megis Digartrefedd, Opsiynau Tai ac Ynni; gwasanaethau corfforaethol megis Stadau, Cynnal a Chadw a Diogelwch Eiddo, Swyddfeydd a Glanhau; a gwasanaethau masnachol megis Difa Pla.

Mae mesurau perfformiad ar gyfer y gwasanaethau hyn i’w gweld yn Atodiad 2, a hoffwn dynnu sylw at rai ohonynt isod:

- **<u>Eiddo 4</u>: Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu â'r un adeg y llynedd**

  Ym mis Awst 2025, roedd canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor yn -6.07% o gymharu â'r un adeg yn 2024. Mae'r perfformiad hwn yn dangos bod gwaith y tîm ar hyrwyddo a rheoli defnydd y sefydliad o ynni yn cael effaith gadarnhaol ar ein hallyriadau carbon.

- **<u>Eiddo 6, 7, 8 a 9</u>: Boddhad cwsmer Difa Pla, Stadau, a Chyfleusterau**

  Mae arolygon boddhad cwsmer yn cael eu casglu ar gyfer y gwasanaethau hyn ac yn rhoi cyfle i'n cwsmeriaid gynnig sylwadau ac adborth, sy'n cael ei ddefnyddio i fesur perfformiad. Mae’r adborth dros y misoedd diwethaf yn dangos canlyniadau cadarnhaol iawn, ac yn dangos bod cwsmeriaid yn gwbl fodlon neu’n gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth.

- **<u>Tai 01</u>: Nifer o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor (ers Ebrill 2020)**

  Mae’r nifer o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd wedi cynyddu i 331 erbyn hyn, sy’n cynnwys 136 o grantiau trwy'r Cynllun Cartrefi Gwag. Mae’r gwasanaeth yn wynebu cyfnod gyda chapasiti is yn dilyn ymadawiad un aelod o'r tîm yn ddiweddar, ond rydw i’n hyderus fod y trafodaethau priodol ar y gweill i lenwi’r bwlch cyn gynted â phosibl.

- **<u>Tai 02</u>: Dyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gwblhau gwaith addasiadau i dai pobl anabl**

  Mae'r data yn dangos darlun calonogol iawn, sef bod yr amser a gymerir i gwblhau addasiad Grant Cyfleusterau i’r Anabl wedi lleihau'n sylweddol dros y misoedd diwethaf, ac addasiadau Galluogi wedi sefydlogi dros y cyfnod diwethaf. Mae'r grantiau hyn yn cynnig cymorth allweddol sy'n galluogi i drigolion bregus fyw yn eu cartref yn annibynnol, neu ddychwelyd gartref o'r ysbyty.

- **<u>Tai 04</u>: Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT**

  Mae cyfanswm o 433 o unedau wedi'u datblygu ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai bellach, a 327 o unedau ar y gweill ar y Prif Raglen. Fis Mehefin, cwblhaodd cynllun Cae Ifor, Pwllheli, Ym mis Awst, cwblhaodd safle ger Penyrhwylfa, Harlech, safle ag 19 eiddo; ac ym mis Medi,

cafodd Maes Deudraeth, Penrhyndeudraeth ei gwblhau yn ei gyfanrwydd gyda'r 10 eiddo diwethaf wedi'u gosod. Yn ystod y cyfnod yma, cafodd un tŷ ei godi yn sgil argymhelliad gan y Grŵp Tai Arbenigol wedi iddynt adnabod angen gan deulu lleol am eiddo hygyrch arbenigol. Mae hyn yn dangos cryfder y bartneriaeth sydd rhwng y Cyngor a'n partneriaid tai, sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am y cydweithio, ac wedi'i hamlygu fel arfer da gan Lywodraeth Cymru.

- **Tai 08: Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas**

Dros y cyfnod diwethaf, mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi gweld nifer sylweddol o gyflwyniadau yn ei gyrraedd – 20 yr wythnos – ac mae'n argoeli i barhau felly dros y misoedd nesaf. Yn wir mae'r cyfnod rhwng Tachwedd a Chwefror yn rhai o'r misoedd prysuraf i'r Gwasanaeth a rhag-welwn y bydd y patrwm o gynnydd mewn cyflwyniadau a nifer mewn llety yn parhau felly eleni hefyd. Er hynny mae gwaith caled y tîm Digartrefedd wedi llwyddo i gadw nifer yr aelwydydd sydd mewn llety argyfwng, yn ogystal â'r amser y mae rhywun yn ei dreulio mewn llety, yn sefydlog.

- **Tai 11: Gosodiadau Tai Cymdeithasol**

Mae'r patrwm nodedig o gynnydd i'w weld dros y misoedd diwethaf yn yr amser a dreulir yn aros am dŷ cymdeithasol yn bryder, ac er bod gan yr Adran a'i phartneriaid tai raglen iach a llwyddiannus ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol (fel y gwelir ym mesurydd Tai 4), mae'r cynnydd a welir yn yr amser ar y gofrestr yn adlewyrchu'r hinsawdd heriol sydd ohoni ar hyn o bryd, gyda phrinder a diffyg argaeledd tai cymdeithasol yn parhau'n ffactor fawr.

- **Tai 13: Nifer o dai sydd wedi gweld cynnydd yn eu Tystysgrif Perfformiad Ynni**

Mae'r data diweddaraf yn dangos cynnydd eto yn nifer y tai sydd wedi gweld eu gradd EPC yn codi. Ers dechrau'r Cynllun, mae 1,802 o geisiadau wedi eu cymeradwyo a 950 o dai Gwynedd bellach yn dai clyd, mwy cyfforddus ac yn well i les ein trigolion, yn ogystal â bod yn fodd i helpu i dynnu pobl allan o dlodi tanwydd.

## 3. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Tai ac Eiddo, gyda'r Cyfarwyddwr, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

## Gwynedd Glyd: Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Diweddariad ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (Medi 2025) | Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Tai ac Eiddo** | **Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol** | 1 Erbyn diwedd y drydedd flwyddyn, bydd 200 o dai pellach ar gael ar gyfer trigolion Gwynedd, a bydd cyfanswm o 500 o dai cymdeithasol wedi'u datblygu erbyn diwedd y cyfnod | 1 Hyd at Fedi 2025, mae 433 o dai cymdeithasol wedi'u datblygu (gweler mwy o wybodaeth ym mesurydd T04) | 1 Ydi |
| | | 2 Bydd dau ddatblygiad Tŷ Gwynedd wedi'u cwblhau a bydd o leiaf ddau ddatblygiad arall ar safle. | 2 Mae 2 ddatblygiad ar drac i gwblhau o fewn y flwyddyn, sef Dôl Afon Goch, Llanberis a safle Coed Mawr, Bangor. | 2 Ydi |
| | | 3 Byddwn wedi prynu cyfanswm o 68 o dai oddi ar y farchnad agored trwy'r Cynllun Prynu i Osod, ac wedi gosod o leiaf 40 o'r rheiny i denantiaid sydd mewn angen tai | 3 Mae 51 o dai wedi'u prynu hyd yma ac 20 ohonynt ar osod i drigolion lleol | 3 Ydi |
| | | 4 Byddwn wedi dod â 28 eiddo gwag pellach yn ôl i ddefnydd trwy gymorth grantiau i adnewyddu tai gwag gan ddod â'r cyfanswm i 130 | 4 Hyd at Hydref 2025 rydym wedi dod â 28 eiddo gwag pellach yn ôl i ddefnydd ac mae'r cyfanswm bellach yn 136 | 4 Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5 Trwy'r Cynllun Prynu Cartref, bydd 70 eiddo wedi'i brynu trwy'r Cynllun, er mwyn helpu a galluogi i bobl i fyw yn eu cymunedau lleol | 5 Mae 71 o dai wedi'u prynu trwy gymorth y Cynllun Prynu Cartref hyd yma | 5 Ydi |
| **Tai ac Eiddo** | **Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd** | 1 O safbwynt datgarboneiddio tai byddwn yn sicrhau bod trigolion y sir yn gwneud y mwyaf o'r cynlluniau sy'n bodoli fel ECO4 a Nyth a byddwn wedi cyfeirio 300 o gleientiaid i ECO4 neu i Nyth.<br><br>2 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gyllid sy'n cael ei ryddhau i helpu gyda chostau byw yn cael ei hawlio. Enghraifft o hyn yw'r arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r elusen *Fuel Bank Foundation* (FBF). Os bydd arian y FBF yn parhau ar gael, byddwn yn edrych i gyflwyno 1,000 o dalebau.<br><br>3 Byddwn yn cyfeirio 40 o drigolion sy'n cysylltu am gymorth ychwanegol i'r Banc Bwyd, Age Cymru, Cynnal Gofalwyr, Canllaw, CAB, Cymdeithasau tai<br><br>4 Byddwn yn cynnal o leiaf 10 o ymweliadau cartref cefnogaeth ynni yn ôl y galw lle byddwn yn cynnig cymorth a chyfeirio unigolion at wasanaethau perthnasol.<br><br>5 Byddwn yn cynnal 2 Sesiwn Partneriaeth Ynni gyda NEA, gyda nifer o'r 3ydd sector, Cynghorwyr, | 1 Wedi cyfeirio 372 o bobl i ECO<br><br>2 Wedi dosbarthu 117 o dalebau ynni i drigolion sydd mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu yn Ngwynedd gyda gwariant gwerth £3,510. Ers y cychwyn rydym wedi dosbarthu 5,788 gwerth £239,565 - arian sydd wedi mynd yn uniongyrchol i drigolion fwyaf bregus y sir. Noder fod Adra, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru yn cymryd galwadau ar gyfer eu tenantiaid eu hunain felly mae hyn wedi golygu gostyngiad yn y nifer sy'n cael eu prosesu gan y Tîm.<br><br>3 Rydym wedi cyfeirio 26 o drigolion at gymorth dros y cyfnod diwethaf<br><br>4 Rydym wedi cynnal 32 ymweliad yn barod dros y cyfnod<br><br>5 Rydym wedi cynnal 1 sesiwn yn Ebrill a chynhelir y sesiwn nesaf ym mis Tachwedd 2025 | 1 Ydi<br><br>2 Ydi<br><br>3 Ydi<br><br>4 Ydi<br><br>5 Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Aelodau Seneddol yn rhan o'r bartneriaeth, ac yn rhannu gwybodaeth a hyfforddiant cyfredol.<br><br>6 Byddwn yn trefnu 20 o Sesiynau Galw i Mewn Ynni i roi cymorth ynni i drigolion ar draws Gwynedd a chyfeirio i'r gwasanaethau priodol. | <br><br><br>6 Rydym wedi cynnal 35 sesiwn galw i mewn i drigolion hyd yma | <br><br><br>6 Ydi |
| **Tai ac Eiddo** | **Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd** | 1 Byddwn wedi cwblhau uwchraddiad 35 Ffordd y Coleg a bydd unigolion wedi symud i mewn i 137 Stryd Fawr Bangor. Bydd gwaith yn barod i ddechrau ar adeilad Penrallt, Caernarfon<br><br>2 Bydd gwedd olaf adeilad Lle Da (hen adeilad Gisda a NatWest ar y Maes, Caernarfon), sef y caffi a hwb pobl ifanc wedi'i gwblhau<br><br>3 Byddwn wedi denu 20 eiddo ychwanegol i Gynllun Lesu Cymru<br><br>4 Byddwn yn parhau i edrych ar brynu neu addasu adeiladau parod er mwyn cynyddu ein hopsiynau llety dros dro ymhellach | 1 Mae gwaith adfer problemau a adawyd gan gyn-gontractwr yn 35 Ffordd y Coleg bellach wedi cwblhau, ac rydym yn disgwyl i'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu gadarnhau bod modd trosglwyddo'r adeilad i'r Gwasanaeth Digartrefedd yn fuan. Mae trigolion cyntaf 137 Stryd Fawr Bangor wedi symud i mewn ym mis Awst a Medi, a bydd yr unedau'n llawn erbyn dechrau Hydref. Penrallt – mae cwmni wedi'i benodi i gwblhau gwaith mecanwaith a thrydanol<br><br>2 Mae'r wedd olaf bellach wedi cwblhau.<br><br>3 Rydym wedi derbyn 7 ffurflen fynegi diddordeb dros y tri mis diwethaf, ac wedi lesu un eiddo newydd yn yr un cyfnod.<br><br>4 Disgwylir cwblhau pryniant Tŷ Glyn, Bangor ddechrau mis Hydref. | 1 Ydi<br><br>2 Ydi<br><br>3 Ydi<br><br>4 Ydi |

**<u>Gwynedd Effeithlon:</u> Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol**

| **Adran** | **Prosiect** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):** | **Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma** (Medi 2025) | **Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Tai ac Eiddo** | **Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol** | 1 Byddwn yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo gan ymgorffori'r polisïau drafft sydd wedi'u hadolygu, a chanfyddiadau'r trafodaethau gyda'r Adrannau mewn cyswllt ag asedau sy'n weddill i anghenion.<br><br>2 Bydd y gwaith o addasu'r Pencadlys yn parhau gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth gofod lles i staff, byddwn yn ymgymryd â gwaith i asesu'r potensial i ganoli swyddogion sy'n parhau i weithredu o swyddfeydd ymylol ym Mloc A.<br><br>3 Byddwn yn gwneud gwaith i asesu opsiynau ar gyfer addasu Swyddfeydd Ffordd y Cob a Phenarlâg er mwyn cyfarch gofynion y trefniadau gweithio Hybrid. | 1 Trafodaethau gyda Adrannau i ystyried opsiynau i ganoli gwasanaethau yn parhau. Hicynau hawliau dirprwyedig ar gyfer caffael a gwaredu wedi eu haddasu a bydd gofyn cyfarch yma y newidiadau yma yn y Polisïau diwygiedig.<br><br>2 Mae'r gwaith o ddarparu gofod lles corfforaethol i staff yn y Pencadlys wedi cychwyn, a bid am gyllid wedi ei wneud i sicrhau darpariaethau cydraddoldeb a hygyrchedd yn y Pencadlys.<br><br>3 Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud er mwyn adnabod ein hangen ar gyfer gofod swyddfa yn Ffordd y Cob a Phenarlâg, ac opsiynau i uchafu defnydd y safleoedd trwy gyfuno defnyddiau amgen yn cymryd lle. | 1 Ydi<br><br>2 Ydi<br><br>3 Ydi |

Mis adrodd cyfredol: Medi 2025

# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD - MESURAU TAI AC EIDDO

Mis adrodd blaenorol: Awst 2025

| Mesur | Gwerth | Mis diwethaf | Disgrifiad | Swyddog |
|---|---|---|---|---|
| EIDDO 01 | 14.03 ⇧ | 13.77 | Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw | Gareth Wyn Jones |
| EIDDO 02 ★ | 6 | 6 | Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Cynnal a Cha... | Gareth Wyn Jones |
| EIDDO 03 | 13.00 ⇩ | 13.69 | Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith Teleofal | Gareth Wyn Jones |
| EIDDO 04 | -6.07% ⇧ | -8.96% | Canran yr allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf | David Mark Lewis |
| EIDDO 05 | 64% ⇩ | 67% | Canran o archwiliadau eiddo blynyddol wedi'u cwblhau | Gareth Wyn Jones |
| EIDDO 06 ★ | 6 | 6 | Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Difa Pla | David Mark Lewis |
| EIDDO 07 | 5 | 6 | Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda gwasanaeth yr Uned Stadau | Daniel Lewis |
| EIDDO 08 | 5 | 5 | Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Glanhau | Karen Moseley-Jones |
| EIDDO 09 ★ | 6 | 6 | Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Swyddfeydd | Karen Moseley-Jones |
| EIDDO 10 | 88% | 88% | Prosiectau'r Uned Datblygu Eiddo sydd yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen wedi i'r briff llawn gael ei gyt... | Geraint Owen |

★ Perfformiad yn rhagori

Gwyrdd: Perfformiad yn cadw o fewn yr amrediad arferol a dim tystiolaeth amlwg ein bod yn waeth na chymheiriaid.

Melyn: Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio y tu allan i'r amrediad arferol derbyniol a chamau ar y gweill / Perfformiad o fewn yr amrediad arferol ond tystiolaeth bod modd gwella ar y perfformiad.

Coch: Perfformiad wedi dirywio yn bell o'r amrediad arferol.

*Mis adrodd cyfredol:* Medi 2025

# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD - MESURAU TAI AC EIDDO

*Mis adrodd blaenorol:* Awst 2025

### TAI 01
Mis diwethaf: 309

**331** ⇧

Nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd trwy gefnogaeth y Cyngor

**Gareth Moriarty Owen**

### TAI 02
Mis diwethaf: 58

**56** ⇩

Dyddiau ar gyfartaledd i gyflawni gwaith i wneud addasiadau i dai pobl anabl

**Gareth Moriarty Owen**

### TAI 03
★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (allan o 6) yn fodlon a'r gwasanaeth gorfodaeth tai

**Gareth Moriarty Owen**

### TAI 04
Mis diwethaf: 423

**433** ⇧

Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y Cynllun Gweithredu Tai

**Hedd Tomos**

### TAI 05
★ Mis diwethaf: 10243

**11405** ⇧

Nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol

**Hedd Tomos**

### TAI 06
Mis diwethaf: 48

**51** ⇧

Nifer o dai wedi eu prynu drwy'r cynllun 'Prynu i Osod'

**Gareth Moriarty Owen**

### TAI 07
Mis diwethaf: 43

**53** ⇧

Prosiectau a ariennir trwy'r Grant Cymorth Tai sydd wedi'u hadolygu

**Hedd Tomos**

### TAI 08
Mis diwethaf: 206

**206**

Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas

**Colleen Pritchard**

### TAI 09
Mis diwethaf: 433

**452** ⇧

Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn tŷ dros dro

**Colleen Pritchard**

### TAI 11
Mis diwethaf: 718

**751** ⇧

Dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol

**Hedd Tomos**

### TAI 12
★ Mis diwethaf: 100%

**100%**

Canran gosodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson lleol

**Hedd Tomos**

### TAI 13
Mis diwethaf: 943

**950** ⇧

Tlodi Tanwydd - tai sydd wedi gweld cynnydd mewn EPC

**David Mark Lewis**



- ★ (gwyrdd) Perfformiad yn rhagori
- (gwyrdd) Perfformiad yn cadw o fewn yr amrediad arferol a dim tystiolaeth amlwg ein bod yn waeth na chymheiriaid.
- (melyn) Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio y tu allan i'r amrediad arferol derbyniol a chamau ar y gweill / Perfformiad o fewn yr amrediad arferol ond tystiolaeth bod modd gwella ar y perfformiad.
- (coch) Perfformiad wedi dirywio yn bell o'r amrediad arferol.


# EIDDO 01: Uned Cynnal a Chadw


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i gwblhau cais am waith cynnal a chadw

Mae'n destun balchder fod y dyddiau ar gyfartaledd wedi lleihau dros y 12 mis diwethaf ac wedi sefydlogi ar tua 14 diwrnod (cyfartaledd dros y 12 mis diwethaf o 14.80 diwrnod), a hynny wrth ystyried yr amrywiaeth eang o alwadau am waith sy'n cyrraedd y tîm. Credwn fod perfformiad y tîm yn dda, ac yn gwneud yr hyn sy'n bwysig i'n cwsmeriaid - a chaiff hynny ei gefnogi a'i ategu ym mesurydd Eiddo 2 (Boddhad Cwsmer Cynnal a Chadw) lle gwelir sgôr o 100% boddhad dros y 12 mis diwethaf.

Noder bod galwadau yn gostwng yn Gorffennaf ac Awst, sy'n gyson â chyfnod yr haf pan mae safleoedd ysgol yn cau a'r tywydd yn braf. Ond yn ôl yr arfer mae'r nifer galwadau'n wedi cynyddu'n sylweddol fis Medi gyda ysgolion yn ail agor a'r wrth i'r tywydd oeri.



# EIDDO 02: Uned Cynnal a Chadw

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Cynnal a Chadw

Drwy ofyn am sgôr allan o 10 rydym yn cael adborth da iawn gan ein cwsmeriaid ac yn mynd at wraidd eu barn go iawn pan nad ydynt yn rhoi sgôr llawn.

Dros y chwarter diwethaf, mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn ar y cyfan ac rydym yn falch bod pob un wedi rhoi sgôr llawn i ni dros y cyfnod diweddaraf. Dyma flas o'r sylwadau:

1. "Roedden nhw wedi ymateb i'r alwad yn sydyn ac wedi gallu sortio ar y diwrnod, popeth yn iawn rwan." (10/10)
2. "Hapus efo'r gwasanaeth, dim cwynion!" (10/10)
3. "Hapus iawn efo'r gwaith, heb fod yn broblem ers hynny chwaith felly fyswni'n sgorio 10/10." (10/10)

Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Cynnal a Chadw



# EIDDO 03: Uned Cynnal a Chadw


Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Yr amser (mewn dyddiau) a gymerir i gwblhau cais am waith Teleofal

Mae'r cyfnod amser a gymerir i gau cais am waith Teleofal wedi sefydlogi oddeutu 13.65 diwrnod ar gyfartaledd dros y 12 mis diwethaf.

Yn ogystal â'r gwaith dydd-i-ddydd, mae'r tîm wedi bod yn gweithio ar ddigideiddio'r teclynnau Teleofal dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd. O'r 1,500 o ddyfeisiau sydd allan gan unigolion yng Ngwynedd, mae tua 1,200 wedi'u trosi, gyda'r oddeueu 300 sydd ar ôl i'w trosi rhwng nawr a diwedd y flwyddyn.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a chymdeithas dai Adra ynghylch trosglwyddo hen gyfarpar tenantiaid Adra i'r dechnoleg newydd. Gan y bydd hyn yn golygu gwaith ychwanegol sylweddol i'r tîm, bydd cais yn cael ei gyflwyno am adnodd ychwanegol i fod yn ymgymryd â'r gwaith.



# EIDDO 04: Uned Cadwraeth Ynni

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu â'r un adeg y llynedd

Yn gyffredinol mae cyfnod yr haf yn eithaf tawel nghyd destun defnydd ynni oherwydd bod y cyfnod yma gan fod ysgolion wedi cau, cyfnod gwresogi i ffwrdd ac ati. O ran nwy, yr unig ddefnydd a welwyd yw ar gyfer cynhesu dŵr poeth. Mae ceisio cadw ar ben y gwastraff ynni yn hanfodol yn y cyfnod yma drwy wneud yn siŵr bod systemau gwresogi wedi'u diffodd.


Roedd yn gyfnod llewyrchus iawn o ran trydan yn sgil braf iawn lle mae cynhyrchiant solar wedi dwyn ffrwyth. Bu gostyngiad ym mhob mis (Mai-Awst) o gymharu â 2024. Yn gronnus roedd defnydd trydan i lawr -2% yn erbyn 2024 sy'n gyfatebol i -140,104kWh.

O ran nwy, gwelwyd gostyngiad sylweddol ym mhob mis gyda phob mis >10% yn is na 2024 (ac eithrio mis Gorffennaf oedd -5%) - mae hyn yn sgil gwaith y tîm i addasu gosodiadau'r BMS's a bod yn wyliadwrus yn ystod y cyfnod. Yn aml nid ydym yn gweld cymaint o ostyngiad mewn lefelau nwy yn ystod yr haf, ond oherwydd y gwaith o fynd ati i sicrhau nad oes mymryn o wastraff, rydym wedi llwyddo i ostwng ein treuliant nwy dros y cyfnod. Yn gronnus rydym -10.38% (1,515,283)kWh o gymharu â 2024.

Mae ein allyriadau Carbon Deuocsid (kg/Co2) oddeutu tua 1400 tunnell yn llai dros y cyfnod o Ionawr-Awst yn 2025 o'i gymharu a'r un cyfnod yn 2019, sydd yn gyfatebol i -26.69%. Ac o gymharu a 2024 tua 300 tunnell yn llai dros yr un cyfnod sydd yn gyfatebol i -7.5%.

**Noder nad oes data ar gael ar gyfer Medi 2025 oherwydd oedi yn derbyn y data.*

Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau o'i gymharu â'r un adeg y llynedd



# EIDDO 05: Uned Cydymffurfiaeth

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Canran o archwiliadau eiddo blynyddol wedi'u cwblhau

Mae 64% o archwiliadau eiddo wedi'u cwblhau erbyn Medi 2025. Mae hyn yn cyfateb i 233 o archwiliadau allan o gyfanswm o 364.

Mae'r ffigwr hwn wedi gweld lleihad graddol dros y misoedd diwethaf, a hynny oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys ein bod wedi bod yn brin o un swyddog.

Fodd bynnag, mae'r archwiliadau pwysicaf wedi cael eu blaenoriaethu, megis archwiliadau tân, ac mae trefniadau amgen wedi'u rhoi yn eu lle i ddelio gydag archwiliadau statudol, e.e. archwiliadau asbestos er mwyn sicrhau bod y materion risg uchel yn derbyn sylw amserol a phriodol i sicrhau bod ein hadeiladau'n ddiogel i ddefnyddwyr.

Rydym unwaith eto’n wynebu sefyllfa o swydd wag yn y tîm ac rydym newydd hysbysebu'r swydd, ac yn gobeithio gallu cyfweld yn fuan. Noder fodd bynnag bod arbenigedd ac anghenion hyfforddiant y swydd yn golygu ein bod yn gweld heriau wrth recriwtio person cymwys yn syth.



# EIDDO 06: Uned Difa Pla

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Difa Pla

Mae'r Uned Difa Pla yn wasanaeth masnachol i'r cyhoedd ac felly mae'n hanfodol fod ein cwsmeriaid o'r farn eu bod yn cael gwasanaeth ardderchog am yr hyn maen nhw'n talu amdano. Rydym yn falch felly fod hwn yn faes lle rydym yn gyson yn cael adborth da gan ein cwsmeriaid.

Mae 100% o'r rheiny a holwyd dros y deufis diwethaf yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth h.y. cafwyd sgôr o 10/10 i'r gwasanaeth gan bob un. Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u cynnwys isod:

1. "Ifan wedi ffonio a dod allan yn syth." (10/10)
2. "Hapus, wedi defnyddio'r gwasnaeth fwy nag unwaith." (10/10)
3. "Hapus iawn hefo'r gwasanaeth" (10/10)
4. "10 - Very happy that Dan contacted him on the same day " (10/10)

Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Difa Pla



# EIDDO 07: Gwasanaeth Stadau

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan y Gwasanaeth Stadau


Mae’r data bodlonrwydd cwsmer dros y misoedd diwethaf wedi parhau yn gyson uchel er gwaethaf pwysau cynyddol ar gapasiti'r tîm.

Mae’r uned yn gwneud defnydd o system reoli asedau Technology Forge ar gyfer rheoli a dyrannu achosion yn fwy effeithiol.

Er bod y gofyn sydd ar yr uned yn sgil y Cynllun Gweithredu Tai a Chynlluniau Blaenoriaeth y Cyngor yn parhau yn uchel gan olygu fod gofyn blaenoriaethu a rheoli disgwyliadau rhai gwasanaethau, mae'n braf nodi bod y data bodlonrwydd cwsmer yn dangos lefel uchel o fodlonrwydd gyda'r gwasanaeth. Mae swyddog newydd nawr wedi ymuno â’r uned ac wedi setlo mewn yn gyflym i fod yn rhan o’r tîm.

Dyma flas o'r sylwadau a dderbyniwyd dros y cyfnod diwethaf:

1. "Byddwn yn rhoi 10/10 fel sgôr, gan na alla i feddwl am unrhyw beth y gellid ei wneud yn wahanol" (10/10)
2. "Er yn gais anarferol am waith, deliodd y swyddog gyda'r cais yn effeithiol iawn - fe wnaeth y gwaith ymchwil angenrheidiol a llwyddodd i wneud trwydded briodol mewn amserlen dynn - gwaith penigamp." (10/10)
3. "Roedd y gwasanaeth a dderbyniwyd yn 10. Mae safon y gwasanaeth yn rhagorol, yn fodlon rhoi un cam pellach nad oedd raid. Fel Cynghorydd, mae'n dda gweld ymddygiad cwrtais gyda thrigolion ac mae'n rhoi adborth i mi pan mae gwybodaeth ar gael." (10/10)



# EIDDO 08: Uned Glanhau


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Glanhau

Mae'r sgôr dros y misoedd diwethaf yn dangos bod ein cwsmeriaid yn fodlon iawn, neu'n gwbl fodlon, gyda'r gwasanaeth. Dyma flas o'r adborth:

1. "Glanhawyr yn cyfro i'w gilydd sy'n grêt." (10/10)
2. "Fysa posib glanhau swyddfeydd yn amlach?" (6/10)
3. "Staff yn hapus iawn gyda'r glanhau ac yn diolch yn fawr i'r tîm am y gwaith." (10/10)

*Noder: Oherwydd bod ein cwsmeriaid yn dueddol fod yr un rhai ac nid oes trosiant uchel, rydym yn casglu'r adborth bob yn ail fis er mwyn osgoi sefyllfa be rydym yn holi'r un cwsmeriaid bob mis*



# EIDDO 09: Uned Swyddfeydd

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Swyddfeydd


Rydym yn casglu barn staff ein swyddfeydd er mwyn darganfod os yw eu swyddfa yn caniatáu iddynt wneud eu gwaith yn iawn, sy'n adlewyrchiad ar y gwasanaeth a gânt gennym ni fel Uned.

Mae'n braf dweud bod staff yn dal i deimlo bod y gwasanaeth yn cyrraedd y nod, fel y tystia'r misoedd diwethaf.

Dyma flas o'r sylwadau gafwyd i'r arolwg boddhad cwsmer:

1. "Yn fy marn i mae'r swyddfeydd yn fy caniatáu i wneud fy waith yn effeithiol. Mae'r lleoliad dda ac yn caniatáu i ni mynd lawr yn sydyn at aelodau o'r cyhoedd sydd angen siarad efo fi. Mae'r cyfleusterau yn y swyddfa hefyd yn caniatáu i mi gwblhau fy gwaith yn effeithiol." (10/10)
2. "Lwcus iawn o ran y swyddfa. Diolch." (10/10)

*Noder: Oherwydd bod ein cwsmeriaid yn dueddol fod yr un rhai ac nid oes trosiant uchel, rydym yn casglu'r adborth bob yn ail fis er mwyn osgoi sefyllfa be rydym yn holi'r un cwsmeriaid bob mis*



# EIDDO 10: Gwasanaeth Datblygu Eiddo

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran prosiectau'r Gwasanaeth Datblygu Eiddo sydd yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen wedi i'r briff llawn gael ei gytuno

Mae gan y Gwasanaeth Datblygu Eiddo 50 o brosiectau byw ar wahanol gamau o'r broses, a 38 o brosiectau sydd yn y cyfnod diffygion.

O'r prosiectau byw, mae 88% ohonynt (44 prosiect) yn symud ymlaen yn unol â'r rhaglen wreiddiol, wedi cwblhau, neu ddim wedi llithro ymhellach o'r rhaglen ddiwygiedig.

Fel y gwelir o'r graff isaf ar y dde, mae'r camau gwahanol wedi'u rhannu fel a ganlyn:


**Cyfnod Dichonoldeb:** 15 prosiect
- 12 ar drac
- 3 wedi llithro ers yr adroddiad diwethaf neu'n parhau i lithro


**Cyfnod Dylunio:** 21 prosiect
- 18 ar drac
- 2 wedi llithro ers yr adroddiad diwethaf neu'n parhau i lithro

**Cyfnod Adeiladu:** 14 prosiect
- Pob un (14) ar drac

Mae'r 5 prosiect sy'n llithro yn llithro oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth.

Yn ystod y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf yn Ebrill, mae 28 o brosiectau wedi'u symud i'r Archif.



# TAI 01: Uned Grantiau a Phrosiectau

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor (ers Ebrill 2020)

Mae nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd wedi cynyddu eto dros y misoedd diwethaf i 331 (o gymharu â 284 pan adroddwyd ddiwethaf ym mis Ebrill).

Mae hyn yn cynnwys 136 o dai sydd wedi derbyn grant Cartrefi Gwag Gwynedd (prosiect 3dd y Cynllun Gweithredu Tai). Mae'r Cynllun yma yn helpu ar gyfartaledd 4 o gontractwyr lleol ar bob cais ac mae dros £1.28m wedi'i wario hyd yma, gyda'r gwariant dros y misoedd diwethaf fel a ganlyn:


Mis Mai: £9,264.17 | Mehefin: £49,516.18 | Gorffennaf: £95,066.75
Awst: £112,674.99 | Medi: £75,127.07


Mae llawer o'r gwariant uchod wedi'i wario yn Arfon (55%) a Meirionnydd (30%), ac 16% wedi'i wario yn Nwyfor.


Mae cynlluniau eraill yn gwneud gwahaniaeth i'r niferoedd o dai gwag sydd yn y sir, megis 'Troi Tai'n Gartrefi', gyda 35 o dai wedi dod yn ôl i ddefnydd trwy gymorth y cynllun hwn hyd yma. Dros y cyfnod diwethaf, mae 2 gais wedi gwneud cynnydd a bron â gorffen, ac rydym yn ymwybodol bod dau gais arall ar fin cael eu cyflwyno.

Cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Craffu Gofal y Cyngor ar 25 Medi, 2025 lle rhannwyd gwybodaeth am ein cynlluniau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd - gellir darllen yr adroddiad yma: TAI GWAG.pdf. Roedd diddordeb amlwg yn y cynlluniau a chafwyd cyfle i drafod ac ateb cwestiynau'r Aelodau. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a'n hannog i barhau i weithredu ar draws y sir.

Yn dilyn ymadawiad aelod o'r tîm, mae ein capasiti wedi cael ei effeithio, a bydd rhaid cynnal trafodaethau i sicrhau bod adnodd digonol ar gael i barhau i gynnig y gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd.



# TAI 02: Uned Grantiau a Phrosiectau

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Dyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gwblhau gwaith addasiadau i dai pobl anabl - Grant Galluogi

Dros y cyfnod diwethaf, mae'r dyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gwblhau addasiadau i dai pobl anabl trwy'r Grant Galluogi wedi sefydlogi o gwmpas rhwng 56 a 59 diwrnod. Rhwng Medi 2024 a 2025, cwblhawyd 99 o grantiau Galluogi.  Mae'r grantiau yma yn sicrhau bod mân addasiadau, fel rampiau i dai, neu ganllawiau neu risiau esgyn yn cael eu gosod er mwyn helpu pobl aros yn eu cartref a pharhau i fyw yn annibynnol.


Rhwng Medi 2024 a 2025, mae 61 o addasiadau DFG (*Disabled Facilities Grant*) wedi'u cwblhau, ac mae'r dyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gwblhau addasiadau wedi gweld cwymp rheolaidd a sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, o 329 diwrnod ym Medi 2024 i 218 diwrnod eleni.

Mae cost cyfartalog addasiad trwy grant Galluogi yn £4,169.10 sy'n adlewyrchiad o'r ffaith nad ydym bellach yn cyfyngu'r gwaith gan werth ariannol, ond gan gwmpas y gwaith (dim elfen strwythurol) sydd yn parhau i weithio'n dda.

Mae cost cyfartalog addasiadau DFG i blant (£65,202.73) yn parhau i fod yn sylweddol uwch na DFG oedolyn arferol (£9,968.26) - mae hyn oherwydd bod natur yr addasiadau'n fwy cymhleth fel arfer, sy'n arwain at gyfnod hirach o amser i gwblhau'r addasiad. Serch hynny, rydym yn parhau i wneud ein gorau i gadw amseroedd i'r lleiafswm posib er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau bosib i drigolion anghenus Gwynedd, ac mae trafodaethau trawsadrannol wedi helpu gyda natur cyfeiriadau a'r disgwyliadau ynghlwm. Gwelir y gwaith hwnnw yn ei dro yn cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau perfformiad.


Nifer o addasiadau Galluogi (12 mis)

**99**




Nifer o addasiadau DFG (12 mis)

**61**



# TAI 03: Uned Gorfodaeth

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) sy'n gwbl fodlon gyda'r Uned Gorfodaeth Tai

Mae'r Uned Gorfodaeth Tai yn chwarae rhan allweddol yn sicrhau bod tai Gwynedd yn ddiogel i'n trigolion trwy gynnal archwiliadau a gorfodi safonau ar dai.

Rydym yn casglu adborth gan ein cwsmeriaid, ac yn gyffredinol mae'r sgôr a sylwadau a dderbynnir yn hynod o bositif, gyda chanmol cyson i'n staff. Mae'n braf nodi fod y patrwm hwnnw'n parhau, gyda phawb sydd wedi ymateb dros y cyfnod diwethaf wedi rhoi'r sgôr uchaf posib i ni (10/10).

Mis blaenorol: 25


**32**

Nifer o archwiliadau y mis hwn

Mis blaenorol: 0

**0**

Nifer cwynion y mis hwn



# TAI 04: Prif Raglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol (PDP)

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT

**Mae 433 o unedau wedi'u datblygu hyd yma fel rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol.**

Fis Mehefin, cwblhaodd cynllun Cae Ifor, Pwllheli, gyda'r safle'n croesawu amrywiaeth o eiddo a thenantiaethau cymdeithasol a chanolraddol. Ar y safle mae cymysgedd o eiddo 2-4 llofft a dau fyngalo.


Ym mis Awst, cwblhaodd safle ger Penyrhwylfa, Harlech, safle ag 19 eiddo, gyda chymysgedd o fyngalos, fflatiau 1 llofft a thai 2, 3 a 6 llofft.

Yn ystod y cyfnod yma, cafodd un tŷ ei godi yn sgil argymhelliad gan y Grŵp Tai Arbenigol wedi iddynt adnabod angen gan deulu lleol am eiddo hygyrch arbenigol.


Ym mis Medi, cafodd Maes Deudraeth, Penrhyndeudraeth ei gwblhau yn ei gyfanrwydd gyda'r 10 eiddo diwethaf wedi mynd drosodd. Derbyniodd tenantiaid eu goriadau ganol fis Medi.

Mae 327 o unedau ar y gweill ar y Prif Raglen, ac ar gamau gwahanol o'r broses.

Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT






Esri UK, Esri, TomTom, Garmin, FAO, METI/NASA, USGS Powered by Esri

# TAI 05: Cynllun Gweithredu Tai

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol (uchelgais y CGT)


Mae 11,385 o bobl wedi derbyn cymorth trwy gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai ers ei lansio. Gall hyn fod trwy nifer o ffyrdd, gan gynnwys derbyn tenantiaeth gymdeithasol neu ganolraddol (cynllun 2a), trwy gefnogaeth ein Cynllun Prynu i Osod (2c) neu Brynu Cartref (3f), trwy dderbyn grant i ddod â thŷ gwag yn ôl i ddefnydd (3dd) neu gael eithriad treth Cyngor ychwanegol tra bydd gwaith atgyweirio tŷ gwag ar y gweill (3e), trwy dderbyn cyngor neu gefnogaeth ein gwasanaeth ynni (4a) neu trwy dderbyn grant neu fenthyciad i wneud addasiadau i dŷ fel bod modd i berson anabl barhau i fyw yn annibynnol gartref (5e, 5f, 5ff), a llawer mwy.

Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet y Cyngor ar 13 Mai 2025, a chafwyd ei sêl bendith i ymestyn y Cynllun am ddwy flynedd ychwanegol (hyd at 2028/29) a chlustnodi'r cyllid ychwanegol ddaw yn sgil ei ymestyn. Cyhoeddwyd Cynllun wedi'i ddiweddaru yma: [Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd (2020/1 – 2028/9)]. Mae gwerth y Cynllun Gweithredu Tai bellach wedi codi i oddeutu £190m (trwy sawl ffynhonnell ariannol), a bydd 2,003 o unedau yn cael eu creu, ac 17,639 o bobl yn cael eu helpu.

Rhai uchafbwyntiau yn sgil y Cynllun Gweithredu Tai dros y cyfnod diwethaf:

- **Tŷ Gwynedd - cynllun 3a:** Mae gwaith ar safle yn Llanberis a Choed Mawr ac yn gwneud cynnydd da. Disgwylir i'r gwaith adeiladu yn Llanberis gwblhau yn y misoedd nesaf, ac mae'r broses o farchnata'r tai ar gyfer darpar ymgeiswyr wedi dechrau gyda Tai Teg. Disgwylir i'r contractwyr drosglwyddo'r tai i ni ym mis Tachwedd, a byddant yn cael eu gwerthu yn fuan iawn wedyn. Mae'r broses o enwi safle Coed Mawr yn dirwyn i ben yn dilyn cyfnod ymgysylltu (fu'n cynnwys rhoi cyfle i ddisgyblion ysgolion lleol gynnig syniadau a bod yn rhan o'r broses). Disgwylir cyhoeddi enw newydd y safle'n yn y misoedd nesaf.
- **Ymgysylltu a chyfathrebu gyda chymunedau - cynllun 3c:** Yn ystod mis Ebrill, Mai a Mehefin, cynhaliwyd ail gyfres Tai ar Daith - cyfres o ddigwyddiadau sy'n mynd â swyddogion tai a meysydd cysylltiedig allan i'r gymuned i siarad gyda thrigolion Gwynedd. Ymwelwyd y tro yma â Bethesda (lle daeth 43 o aelodau o'r cyhoedd a chynghorwyr i'n gweld), Porthmadog (40), Tywyn (38) a Nefyn (37).
- **Grant Cartrefi Gwag Gwynedd (3dd):** Fis Awst eleni, cyhoeddodd y Cyngor addasiad i feini prawf y Grant Cartref Gwag sy'n golygu bod mwy o bobl bellach yn gymwys amdano. Mae'r trothwy incwm wedi codi i £60,000, ac mae grant o hyd at £25,000 bellach ar gael. Mae'r dull o gymhwyso eiddo hefyd wedi newid, a defnyddir bandiau treth Cyngor bellach. Gellir darllen mwy yma: [Mwy o drigolion Gwynedd bellach yn gymwys am grant i adnewyddu tai gwag]
- **Siop un Stop i faterion tai (6):** Ar 15 Medi, 2025, lansiodd y Siop un Stop, sef drws ffrynt i holl ymholiadau tai Gwynedd. Nod y gwasanaeth yw hwyluso a symleiddio mynediad i drigolion y sir at wybodaeth a chyngor ar faterion tai, ac mae'r adborth hyd yma'n gadarnhaol ac mae 83 o bobl wedi cael eu helpu (15-30 Medi). Yn y cyfnod yn arwain at y lansiad, cynhaliwyd sesiynau galw-i-mewn i Aelodau Etholedig a hyrwyddwyd y drefn newydd ar ein cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r wasg ([cliciwch yma i weld y datganiad i'r wasg]).

Nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol trwy'r CGT



# TAI 06: Cynllun Gweithredu Tai: Cynllun 'Prynu i Osod'

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gartrefi sydd wedi'u prynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod


Dros y cyfnod diwethaf, mae 5 tŷ wedi'i brynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod, sy'n dod â'r cyfanswm hyd yma at 51 tŷ. Prynwyd y tai yn yr ardaloedd a ganlyn: Caernarfon (2), Abersoch, Bangor a Chriccieth. Mae 9 pryniant arall ar y gweill maewn lleoliadau ar draws Gwynedd gan gynnwys Llanrug, Nefyn a Bangor.


O'r 51 yn ein meddiant mae 20 ar osod a bellach yn gartrefi i deuluoedd Gwynedd. Rhannwyd stori un o'r rhain yn ddiweddar - gellir gweld stori Ffion a Rhodri yma: [Cynllun Prynu i Osod Cyngor Gwynedd yn cynnig allwedd i'r dyfodol i gwpl ifanc]

O'r gweddill, mae:

- 6 yn barod i'w marchnata / yn y broses o gael eu gosod
- gwaith atgyweirio yn mynd yn ei flaen ar 16 o dai - gyda 13 i fod i'w gorffen erbyn diwedd mis Tachwedd
- rhaglenni gwaith a phecynnau tendro yn cael eu paratoi ar gyfer 9 o dai

Nifer o gartrefi sydd wedi'u prynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod




Nifer wedi'u prynu hyd yma

51

*Noder: nid yw'r pryniannau sydd ar y gweill yn cael eu dangos ar y map er mwyn gwarchod cyfrinachedd y broses gyfreithiol.*

Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Facebook, Inc. and its affiliates, Esri Comm... Powered by Esri

# TAI 07: Uned Comisiynu (Grant Cymorth Tai)


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o adolygiadau sydd wedi'u cynnal ar gyfer cynlluniau'r Grant Cymorth Tai


Dros y cyfnod diwethaf, cynhaliwyd 12 adolygiad - 10 ym mis Mai a 2 ym mis Medi 2025.

Er y cynnydd da a wnaethpwyd yn ystod mis Mai gyda dwywaith yn fwy o adolygiadau wedi eu cynnal na’r targed, rydym yn cydnabod bod y perfformiad am y 3 mis canlynol wedi bod yn is na’r targed ac mae hynny’n siomedig. Mae yna ffactorau sydd yn effeithio ar natur cylchol cynnal yr adolygiadau; er enghraifft mae rhai prosiectau a adolygir yn fwy cymhleth eu natur ac angen amserlen hirach ac adnodd ychwanegol i’w cynnal, rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar addasu a safoni’r broses adolygu gwasanaethau Grant Cymorth Tai, yn cynnwys adolygu’r ddogfennaeth sydd ynghlwm â’r broses, ac mae hyn wedi amharu ar y perfformiad. Mae’r cynllun gwaith ar gyfer y cyfnod nesaf yn gweld 25 o adolygiadau yn cael eu cwblhau rhwng rŵan a diwedd Rhagfyr 2025 fydd yn rhoi’r amserlen yn ôl ar drac. Byddwn hefyd yn cyflwyno trefn newydd fydd yn rhag-rybuddio darparwyr gwasanaeth o’n bwriad i gynnal adolygiad o’u gwasanaethau ymhell o flaen llaw (am y 6 mis dilynol) er mwyn osgoi sefyllfaoedd sydd wedi codi yn ddiweddar lle mae adolygiadau wedi eu gohirio ar y funud olaf oherwydd diffyg argaeledd swyddogion allweddol y darparwyr.

Nifer o adolygiadau sydd wedi'u cynnal o gyfer cynlluniau'r Grant Cymorth Tai




Nifer o brosiectau a ariannir trwy’r Grant Cymorth Tai sydd wedi eu hadolygu yn ôl mis



# TAI 08: Gwasanaeth Digartrefedd: Llety argyfwng


Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas

Dros y pum mis diwethaf, mae’r ffigurau digartrefedd wedi aros yn gymharol sefydlog, er gwaethaf y galw parhaus a sylweddol ar y gwasanaeth. Ar gyfartaledd, mae lefelau cyflwyniadau i'r gwasanaeth yn parhau'n uchel iawn, gyda tua 20 o unigolion newydd yn cyflwyno eu hunain i’r gwasanaeth bob wythnos, sy’n dangos lefel uchel a pharhaus o bwysau ar y tîm. Rhaid nodi bod y cyfnod sydd o'n blaenau dros y gaeaf yn dueddol o weld cynnydd yn y cyflwyniadau (fe welir hynny yn y graff ar gyfer yr un cyfnod yn 2024) a rhagwelir bydd y pwysau ar y gwasanaeth yn cynyddu'n sylweddol bryd hynny.

Er hynny, mae’r ffaith nad yw’r ffigurau cyffredinol wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn yn dyst i ymroddiad a gwaith caled y swyddogion. Mae eu hymdrechion, yn enwedig wrth symud pobl ymlaen yn gyflym o lety gwely a brecwast i lety mwy cynaliadwy, wedi bod yn ffactor hollbwysig wrth gynnal sefydlogrwydd. Heb eu ffocws cyson ar reoli achosion, gweithio mewn partneriaeth a chyflawni symudiadau ymlaen amserol, byddai nifer yr aelwydydd mewn Llety Argyfwng yn sicr yn uwch.

Mae’r perfformiad hwn yn tanlinellu gwydnwch y tîm a hefyd effeithiolrwydd ein dull gweithredu wrth ymateb i hinsawdd sy'n parhau i fod yn hynod heriol. Er nad yw’r galw wedi lleihau, mae gallu’r swyddogion i gydbwyso gweithgarwch atal gyda rheoli’r rhai sydd eisoes mewn llety dros dro yn sicrhau ein bod yn ysgwyddo'r galw gymaint â phosibl.




# TAI 09: Gwasanaeth Digartrefedd: Lesu Sector Preifat (LSP)

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn tŷ dros dro (trwy Lesu Sector Preifat)

Dros y cyfnod adrodd, mae'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau mae unigolion yn aros mewn llety dros dro o dan y cynllun rhentu yn y sector preifat wedi bod yn amrywio i fyny ac i lawr. Mae'r amrywiad hwn yn cael ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y tîm.
Yn benodol, mae diffyg opsiynau ar gyfer llety parhaol i symud unigolion ymlaen. Yn ogystal, mae'r ffaith bod rhai unigolion yn gwrthod cynigion ac yn gofyn am adolygiadau addasrwydd yn ychwanegu at yr oedi cyn symud ymlaen.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r tîm yn parhau i reoli'r llif yn effeithiol, gan sicrhau bod symudiadau yn digwydd lle bynnag y bo modd, a thrwy hynny leihau'r pwysau ar lety PSL. Mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r realiti heriol o ddarparu llwybrau cynaliadwy i lety parhaol.



# TAI 11: Gosodiadau Tai Cymdeithasol

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol (ac eithrio band 4)


Ers peth amser, bu'r dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol yn sefydlog o dan 700 diwrnod. Gwaetha'r modd, mae amser wedi cynyddu eto dros y pum mis diwethaf, o 684 ym mis Mai i 751 ym mis Medi. Mae ceisiadau ym mand 1a ar gyfartaledd yn disgwyl ychydig llai - 714 o ddiwrnodau - i gael eiddo, ac yn y band yma mae'r nifer uchaf o osodiadau hefyd, 20 allan o 26 o osodiadau ym mis Medi.

Mae 751 o ddyddiau ar gyfartaledd yn rhy uchel, ac mae hyn yn adlewyrchu'r heriau sydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd, megis diffyg nifer digonol o dai i ddiwallu'r angen (er gwaethaf rhaglen adeiladu tai cymdeithasol iach iawn), yn ogystal â heriau wrth osod tai.

Lansiodd y Siop un Stop, sy'n cynnig un lle i drigolion Gwynedd dderbyn cyngor a chymorth gydag ymholiadau tai, ar 15 Medi 2025, ac mae'r tîm eisoes wedi helpu nifer fawr o drigolion.

Mae'r gwaith ar sefydlu system newydd Opsiynau Tai wedi cwblhau, ac mae'r system bellach yn ôl yn fyw yn dilyn cyfnod segur tra roedd y gwaith cynnal a chadw a throsglwyddo'n digwydd.


Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol (ac eithrio band 4)




Gosodiadau yn y mis diwethaf

| Band 1A | Band 1B | Band 2 | Band 3 | Band 4 |
|---|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 5 | 1 | 0 |

Nifer gosodiadau ar bob band yn y 12 mis diwethaf



# TAI 12: Gosodiadau Tai Cymdeithasol


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran o'r holl osodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson lleol gyda chysylltiad Gwynedd

Dros y cyfnod diwethaf (Mai - Medi 2025), aeth 98% ar gyfartaledd o'r gosodiadau tai cymdeithasol i berson neu deulu lleol gyda chysylltiad â Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys 100% o osodiadau ym mis Mai (22 gosodiad), Awst (63 gosodiad) a Medi (26 gosodiad).

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ar gyfartaledd mae 97% o osodiadau wedi mynd i bobol gyda chysylltiad â Gwynedd, yn unol â'r hyn a ddiffinnir gan y Polisi Gosod Tai Cyffredin, ac sy'n ofyn statudol arnom fel Cyngor.

Yn y cyfnod yma, mae'r nifer gosodiadau wedi amrywio'n fawr, sy'n gymysgedd o ddatblygiadau newydd yn cwblhau ac oedi yn derbyn data.




# TAI 13: Tlodi Tanwydd

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o dai sydd wedi gweld cynnydd yn eu Tystysgrif Perfformiad Ynni

**Cyfanswm sydd wedi cynyddu EPC:** 950

Nifer misol wedi cynyddu EPC





Mae hwn yn fesurydd sydd yn edrych ar gynnydd mewn lefelau EPC ar dai sydd wedi derbyn cymorth Eco 4. Dechreuodd y Cynllun Eco 4 yn Hydref 2022 ac mae'r data ar gyfer mis Mai 2023 yn y graff isod yn gyfuniad o 8 mis o ddata. Rhwng Hydref 2022 a Medi 2025 mae 950 o dai wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ynni gyda codiad yn yr EPC (*Energy Performance Certificate*) gyda 88 wedi cynyddu i A, 602 i B a 112 i C. Mae hyn yn golygu bod gwariant o dros £10M wedi ei wneud ar dai yng Ngwynedd ers cychwyn ECO 4.

Ochr-yn-ochr â hyn mae 1,802 o geisiadau wedi eu cymeradwyo yn yr un cyfnod. Mae'r gwelliannu sy'n digwydd yn cynnwys ynysu'r waliau a toeau, cynlluniau gwres a paneli solar. Tynnir sylw aelodau y bydd gwahaniaeth amlwg rhwng y ffigwr cymeradwyo a'r ffigwr cynnydd wrth adrodd bob amser. Mae amryw o resymau am y gwahaniaeth yma:


- Yr amser mae'n cymryd contractwyr i osod y mesurau
- Tywydd
- Ardal Cadwraeth
- Y cwsmer eisiau oedi/stopio am resymau personol
- Pobl yn tynnu'n ôl am wahanol rhesymau (e.e. dim eisiau y trafferth o ail-addurno)
- Dim digon o gyllid yn cael ei gynnig gan y cyllidwyr sy'n golygu bod y cynllun yn anhyfyw
- Arianwyr yn araf yn rhoi sêl bendith

O ganlyniad bydd y data yn newid yn gyson wrth i waith gael ei gwblhau.

Faint o gynnydd mewn EPC (mewn graddau)




Gradd EPC newydd y tai



| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 20 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | Brîff Grŵp Tasg a Gorffen Cwynion Adran Plant a Theuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I fabwysiadu'r briff ac i ethol aelodau |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Y Gymraeg a Chraffu |

1. Yn dilyn derbyn adroddiad blynyddol cwynion a chanmoliaeth adran oedolion, iechyd a llesiant ac adran plant a theuluoedd, yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu Gofal ar 25ain o Fedi, 2025 penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i edrych yn fwy manwl ar y pwnc.

2. Daeth yn eglur bod aelodau yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth mewn manylder am y cwynion unigol, y drefn gwyno a'r hyn sy'n cael ei ganiatáu pan fo ymchwiliad yn digwydd, pam bod mwyafrif o unigolion yn dewis cwyno yn Saesneg a'r gefnogaeth diogelu a roddir i staff sy'n delio gyda achwynwyr cyson.

3. Gweler y briff ar gyfer y gwaith fel atodiad i'r adroddiad hwn.

4. Gall uchafswm o 5 aelod fod yn rhan o'r grŵp tasg a gorffen ac yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r aelodaeth gynnwys cynrychiolaeth gan ddim llai na dau grŵp gwleidyddol gwahanol.

5. **Gofynnir i'r Pwyllgor:**
   **(i)** **fabwysiadu'r brîff.**
   **(ii)** **ethol 5 aelod i ymgymryd â gwaith y grŵp tasg a gorffen yn ogystal ag aelod wrth gefn.**

# GRŴP TASG A GORFFEN
# CWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024-2025

## BRÎFF

Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried?

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol cwynion y ddwy adran sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol, sef adran oedolion, iechyd a llesiant ac adran plant a theuluoedd, i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 25ain o Fedi, 2025.

Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ddaeth i rym ar 1af o Awst, 2014, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y modd ymchwilir ac ymdrinnir â chwynion

Roedd yr adroddiad yn darparu:

- gwybodaeth am niferoedd y cwynion a dderbyniwyd gan y ddwy adran
- y rhesymau drostynt ynghyd â datrysiadau
- crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd
- camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd.

Cafwyd ymatebion i nifer o faterion a gododd yn ystod cyfarfod y pwyllgor, ond fe gododd rhai materion ychwanegol. Daeth yn eglur bod aelodau yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth mewn manylder am y cwynion unigol, y drefn gwyno a'r hyn sy'n cael ei ganiatáu pan fo ymchwiliad yn digwydd, pam bod mwyafrif o unigolion yn dewis cwyno yn Saesneg a'r gefnogaeth diogelu a roddir i staff sy'n delio gyda achwynwyr cyson.

Bwriad y gwaith yw sicrhau:

- bod yr aelodau yn deall y trefniadau delio gyda chwynion ac yn derbyn gwybodaeth gryno am bob cwyn a dderbyniwyd yn ystod 2024-2025
- gwell dealltwriaeth o'r rhesymau tu cefn i ddewis unigolion i gwyno yn Saesneg ac a oes modd gwneud rhywbeth i annog mwy i gwyno yn Gymraeg
- bod cefnogaeth ddigonol o ran diogelu i staff sy'n deilio gyda achwynwyr cyson.

Ni fydd modd rhannu enwau/gwybodaeth am unigolion penodol oherwydd materion cyfrinachedd.

Camau i weithredu

- Pwyllgor Craffu Gofal i dderbyn y briff ac adnabod 5 Aelod i gymryd rhan, gyda'r aelodaeth i gynnwys cynrychiolaeth gan ddim llai na dau grŵp

gwleidyddol gwahanol, yn ogystal â rhai wrth gefn rhag ofn nad oes modd i bawb fynychu'r cyfarfod. (20/11/2025)

- Gofyn i'r Fforwm Craffu flaenoriaethu adnoddau i gynnal Grŵp Tasg a Gorffen yn eu cyfarfod mis Rhagfyr
- Cynnal un cyfarfod ar gyfer y 5 aelod gyda chynrychiolwyr o'r Adrannau Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y flwyddyn newydd
- Adrodd nol i'r Pwyllgor Craffu Gofal – 26 Mawrth neu Mehefin 2026

Swyddogion allweddol

Cynhelir y cyfarfod i'r 5 aelod fydd wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y grŵp tasg a gorffen gyda'r swyddogion allweddol isod:

| ADRAN | SWYDDOG ALLWEDDOL |
|---|---|
| Plant | Lowri Williams, Swyddog Gofal Cwsmer<br>Elliw Haf Hughes, Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd<br>Aled Gibbard, Pennaeth Adran Plant Adnoddau |
| Oedolion | Geraint Wyn Jones, Swyddog Gofal Cwsmer<br>Mannon Trappe, Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Cynrychiolydd o'r gwasanaeth democratiaeth ac iaith i arwain y gwaith |

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL, 25 MEDI 2025**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:**

Elwyn Jones (Cadeirydd), Jina Gwyrfai, Beth Lawton, Eryl Jones-Williams, Sian Williams, Rheinallt Puw, Gwynfor Owen, Angela Russell, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams, Elin Walker Jones, Menna Baines, Gareth Coj Parry, Berwyn Parry Jones a Anwen J. Davies

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd) Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd) Mari Wynne Jones (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Mari Wynne Jones (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), (Sian Edith Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion) Lynne Lloyd Jones (Rheolwr Prosiect Gwasanaeth Oedolion) a Rhian Green

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mari Wynne Jones (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Craig ab Iago (Aelod lleol), Sian Griffiths (Arweinydd Tîm Llesiant)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Hedd Morlais Glyn Tomos (Pennaeth Cynorthwyol Adran Tai ac Eiddo) a Gareth Moriarty Owen (Rheolwr Gorfodaeth a Phrosiectau) Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Geraint Wyn Parry a Linda Morgan.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Eryl – Jones Williams ar gyfer eitem 6. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Jina Gwyrfai ar gyfer eitem 8. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2025, fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y WEITHDREFN CWYNION, YMHOLIADAU A DIOLCHIADAU'R ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AC ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT AR GYFER 2024-25**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Menna Trenholme, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Atgoffwyd fod yr adroddiad yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau Llywodraeth Cymru. Nodwyd ei fod yn gyfle i adolygu sut mae'r adran yn delio a phryderon trigolion Gwynedd. Amlinellwyd pwysigrwydd yr adroddiad i fesur perfformiad yr adrannau a sut gellir dysgu o bob achos er mwyn gwella gwasanaethau dros bobl Gwynedd.

Nodwyd mai 42 ymholiad anffurfiol a 23 cwyn ffurfiol a gafwyd gan yr Adran Oedolion. Cafodd yr Adran Plant 28 ymholiad anffurfiol a 25 cwyn ffurfiol. Cadarnhawyd bod rhan helaeth o'r ymholiadau wedi eu datrys yn brydlon a chadarnhawyd nad oedd unrhyw ymchwiliad gan yr Ombwdsman yn 2024-25.

Cadarnhawyd bod yr adran oedolion wedi derbyn 106 o ddiolchiadau a'r adran plant wedi derbyn 95. Amlinellwyd y prif themâu a ddysgwyd yn yr adroddiad a phwysleisiwyd pwysigrwydd cyfathrebu clir, cefnogi staff wrth ddelio ac achwynwyr mewn sefyllfaoedd anodd a pharhau i fynd ar afael ar y pwysau ar ofal cartref.

Nodwyd bod cynnydd amlwg yn nefnydd yr iaith Gymraeg yn yr Adran Oedolion. Amlinellwyd bwriadau'r adran wrth edrych ymlaen at 2025/26 a oedd yn cynnwys:

- rhannu gwersi yn rheolaidd gyda'r tîm rheoli
- parhau i gadeirio'r grŵp rhanbarthol swyddogion gofal cwsmer Gogledd Cymru
- annog rhannu canmoliaeth ochr yn ochr â chwynion
- hybu cwblhau hyfforddiant e-ddysgu
- ehangu'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyda phosteri mewn cartrefi preswyl ac adeiladau cyhoeddus.

Pwysleisiwyd mai pobl Gwynedd a nid nifer y cwynion sy'n holl bwysig i'r ddwy adran. Nodwyd fod cwynion yn gyfle i'r adran ddysgu, gwella a chryfhau ymrwymiad yr adran i ddarparu gwasanaethau o safon.

Wrth agor y drafodaeth i'r aelodau amlygwyd bod ymholiadau i'r ddwy adran wedi cynyddu yn sylweddol, er hyn nodwyd fod nifer y cwynion wedi aros yn gyson. Pwysleisiodd yr adran fod dipyn o ymdrech wedi ei wneud i staff fod yn ymwybodol o'r drefn gwynion ac i geisio cael datrysiadau cyn i'r ymholiad droi yn gŵyn.

Gofynnwyd am y cynnydd mewn nifer o geisiadau rhyddid gwybodaeth a beth oedd y prif reswm oedd wedi achosi'r cynnydd yma. Ymatebwyd drwy nodi fod nifer o resymau dros y cynnydd mewn ceisiadau megis sylw cyhoeddus yn y wasg, ceisiadau gan yr heddlu am wybodaeth gefndirol, rhai ar gyfer gwaith ymchwil a mynegwyd bod rhai yn geisiadau sy'n gallu dod yn flynyddol. Eglurwyd gyda'r cynnydd yn y niferoedd fod llawer o amser swyddogion yn mynd i chwilio a rhannu'r wybodaeth.

Mynegwyd balchder o glywed fod yr adroddiad am bobl yn hytrach na niferoedd a bod yr enghreifftiau yn dod a'r adroddiad yn fyw. Er hyn gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y cwynion. Ymatebwyd drwy nodi fod modd rhannu mwy o wybodaeth ond dim ond yn y fforwm cywir gan fod materion yma o sensitifrwydd uchel. Cytunwyd i greu gweithgor i edrych ar gwynion mewn mwy o fanylder gan o bosib edrych ar themâu penodol er mwyn cadw at gyfrinachedd.

Amlygwyd fod rhai o'r enghreifftiau yn nodi nad oes gwersi i'w dysgu o'r gwyn, a gofynnwyd a oes rheswm dros hyn. Eglurwyd fod ystod eang iawn o bryderon yn codi, ond fod angen edrych yn benodol i'r cwynion hyn a bydd yr adran yn adrodd yn ôl i'r aelod.

Tynnwyd sylw at y cynnydd aruthrol mewn bygythiadau i staff, gan holi beth sydd yn cael ei wneud i amddiffyn staff. Nodwyd fod hyn yn flaenoriaeth yn yr adran a bod asesiadau risg yn cael ei wneud ar lefel unigol i sicrhau trefniadau amgen os yw;r angen yn codi. Nodwyd efallai fod yr elfen hon yn rhywbeth y gellir ei graffu yn y dyfodol o ran sicrhau fod gweithdrefnau yn ei le.

**PENDERFYNIAD**

a) **Derbyn yr adroddiad**
b) **Sefydlu gweithgor i edrych yn fwy manwl i mewn i'r cwynion, ymholiadau a'r diolchiadau er mwyn eu hystyried ymhellach**

## 6. PROSIECT RHYDDHAU O'R YSBYTY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion a Llesiant, Cynghorydd Dilwyn Morgan, Pennaeth Adran Oedolion, Pennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant, Mari Wynne Jones.

Adroddwyd bod y prosiect yn cwmpasu gwaith pwysig y rhwydwaith aml-asiantaeth wrth gefnogi trigolion i ddychwelyd adref o'r ysbyty. Amlinellwyd y

trefniadau presennol y Timau Adnoddau Cymunedol wrth iddynt gefnogi oedolion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Eglurwyd bod y Timau yn cefnogi oedolion gydag anghenion corfforol, gwaeledd, cyflyrau cysylltiedig â henaint a dementia. Rhannwyd manylion ar y llwybrau gofal sydd ar gael i gleifion yng nghyd-destun egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Pwysleisiwyd bod adnoddau personol a chryfderau unigolion yn greiddiol i asesiadau a chynlluniau anghenion gofal a chefnogaeth, er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn derbyn gofal pwrpasol.

Cadarnhawyd bod yr egwyddorion yn seiliedig ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nodwyd y defnyddir y fframwaith cyfreithiol i adnabod deilliannau personol person ac i asesu ei anghenion gofal a chefnogaeth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd annog pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty er eu lles hwy, gan nod ei fod yn destun pryder fod "10 diwrnod ychwanegol yn yr ysbyty yn arwain at gyfwerth a 10 mlynedd o heneiddio yng nghyhyrau pobl dros 80 oed". Pwysleisiwyd mai nod y prosiect yw sicrhau gofal gorau posib wrth gefnogi pobl i fod adref yn eu cymunedau, er mwyn hybu annibyniaeth yr unigolyn a lleddfu'r pwysau ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol sydd eisoes dan bwysau.

Ymhelaethwyd bod y prosiect yn gweithredu mewn ymateb i adroddiad cyhoeddwyd gan Senedd Cymru, a oedd yn ymchwiliad i rôl awdurdodau lleol wrth gefnogi pobl i adael yr ysbyty yn amserol. Eglurwyd bod llawer o gydweithio rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd er mwyn ceisio gwella'r daith i unigolion wrth iddynt ymadael a'r ysbyty. Nodwyd bod y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Cymdeithasol wedi llunio papur yn fframio'r cyd-destun cenedlaethol yng Nghymru a phwysigrwydd cydweithio rhwng yr asiantaethau gwahanol. Amlygwyd bod y GIG yng Nghymru yn defnyddio codau penodol i bennu llwybr unigolion sydd yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, sydd yn seiliedig ar egwyddorion Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA). Manylwyd ar y pedair ffrwd,

Manylodd y Rheolwr Prosiect, ei fod yn Gynllun Peilot a fydd yn rhedeg am gyfnod gan obeithio y bydd y datblygiadau yn cael eu ehangu ar draws y sir. Rhoddwyd trosolwg o amcanion y prosiect yng nghyd-destun adroddiad Llechen Lan a Ffordd Gwynedd o weithio. Eglurwyd bydd y galw am ofal a chefnogaeth yn cynyddu wrth i boblogaeth hŷn gynyddu Cadarnhawyd bydd y gwaith sydd yn deillio o'r prosiect yn sicrhau bod adnodd addas i fynd i'r afael a'r heriau cynyddol hirdymor.

Yn ystod y drafodaeth, croesawyd yr adroddiad a diolchwyd am y gwaith i gefnogi trigolion Gwynedd. Er hyn, mynegwyd siom bod y prosiect yn gyfyngedig i gleifion yn dychwelyd o Ysbyty Gwynedd. Bu i Aelodau ddatgan eu rhwystredigaeth nad yw'r prosiect yn cwmpasu cleifion o Wynedd sydd yn dychwelyd o ysbytai eraill ar draws Cymru a Lloegr. Pwysleisiwyd bod Gwynedd yn sir eang, a bod trigolion yn aml yn cael eu cyfeirio at Ysbyty Maelor yn Wrecsam ac Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Nodwyd bod y trigolion yma yn aml o Feirionnydd, ac felly nad yw'r prosiect yn gynhwysfawr i holl drigolion y sir. Cydnabuwyd bod cyfyngiadau i'r adroddiad, a nodwyd bydd ymrwymiad i ddatblygu ac ehangu'r gwaith ar draws y sir.

Manylwyd ar waith yr Academi Gofal ers ei lansiad ym mis Tachwedd 2024. Nodwyd bod yr Academi yn hyfforddi pobl ifanc a bod hyn yn gynllun sydd yn cyfrannu yn helaeth at annog pobl i gael swyddi yn y maes Gofal yng Ngwynedd. . Eglurwyd nad yw'r awdurdod lleol yn cyflogi ffisiotherapyddion ond cadarnhawyd y byddai'r Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant yn sôn am hyn yn ystod trafodaethau rhanbarthol a' r Bwrdd Iechyd.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi derbyn Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal yn 2025, gwerth £1,149,449. Eglurwyd mai diben y grant yw cefnogi gweithgarwch tuag at gynnal asesiadau amserol a darparu pecynnau gofal i sicrhau y gall pobl adael yr ysbyty. Nodwyd bydd y gronfa yn cael ei ddefnyddio i gryfhau gwasanaethau gofal cymunedol er mwyn cefnogi pobl i aros yn iach yn eu cartref. Cadarnhawyd bydd y grant yn cryfhau capasiti asesu ac adolygu ac yn cynnal ac ehangu'r ddarpariaeth gofal cartref, yn enwedig mewn rhai ardaloedd heriol o Wynedd. Nodwyd bydd y Grant hefyd yn galluogi datblygiadau yn y gweithlu i fabwysiadu'r dull Symud gydag Urddas. Nodwyd bod y dull hwn yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n blaenoriaethu urddas, annibyniaeth a diogelwch unigolyn wrth wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mynegwyd bod yr adran yn croesawu'r arian ychwanegol ond fod gyllideb Llywodraeth Leol yn parhau yn isel a bod yr adran yn parhau i weithredu o dan straen. Cadarnhawyd bod y prosiect yn sicrhau asesiadau amserol a gofal sy'n canolbwyntio ar y person.

Yn ystod y drafodaeth, mynegodd nifer o Aelodau nad yw'r broses o dderbyn gofal a meddyginiaeth yn aml yn ddigon amserol i drigolion ar draws y sir. Cafwyd sgwrs am rwystredigaeth trigolion wrth geisio cael apwyntiad i weld doctor. Nodwyd bod hyn yn aml yn arwain at gleifion yn dirywio yn sydyn ac yn gorfod mynd i'r ysbyty o ganlyniad i ddiffyg gweithredu o'r cychwyn. Nodwyd hefyd bod diffyg ffisiotherapyddion yng Ngwynedd, yn enwedig ardal Pen Llyn, yn ychwanegu yn ddifrifol ar y straen o alluogi i gleifion ddychwelyd adref o'r ysbyty. Pwysleisiwyd bod trigolion yn dioddef oherwydd y diffyg gofal ar gael mewn ardaloedd mwy gwledig o fewn y sir, a bod hyn yn peri gofid i'r cleifion a'u teuluoedd wrth iddynt orfod teithio i dderbyn gofal a chefnogaeth. Pwysleisiwyd nad oes digon o wlâu nyrsio ar gael yn lleol i bobl yn eu cymunedau a bod diffyg gofal lliniarol ar draws y sir yn broblem frawychus.

Canmolwyd cynnwys yr adroddiad a gofynnwyd a fyddai'n bosib cael mwy o enghreifftiau penodol o hanesion cleifion yn y dyfodol. Pwysleisiwyd mai'r claf yw'r unigolyn holl bwysig yn y drafodaeth hon a chanmolwyd y gwaith pwysig sydd yn mynd ymlaen o fewn y prosiect i weithio dros bobl Gwynedd. Ategwyd y gobaith y bydd cleifion a phobl Gwynedd yn elwa yn sylweddol o'r prosiect a bydd y gwaith yn datblygu ac yn ehangu ar draws y sir.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad a gofyn am adroddiad cynnydd mewn 18 mis.**

**7. CYDWEITHIO EFO'R GYMUNED**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Pennaeth Adran.

Nodwyd fod yr adroddiad hwn yn un hynod ddiddorol, sydd yn elfen arall o'r darlun mawr. Eglurwyd fod y gwaith sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo i gadw pobl allan o'r ysbytai ac o wasanaethau yn ardal Dyffryn Nantlle. Eglurwyd nad yw'n gynllun cwbl unigryw ond yn gam pellach i'w hybiau cymunedol sydd i'w gweld ar draws y sir.

Ymhelaethodd y swyddog ei fod yn gynllun syml, sydd yn dod a phobl at ei gilydd ac i gyd-weithio gyda'r gymuned i ymateb i'r heriau o ddarparu gwasanaethau ataliol ar lefel leol. Mynegwyd ei bod yn helpu trigolion ardal Dyffryn Nantlle i gael y gefnogaeth maen nhw ei angen yn rhwydd a heb orfod cnocio ar nifer o ddrysau gwahanol asiantaethau. Ychwanegwyd mai'r nod yw rhoi grym i'r rhai sy'n gweithio a byw yn yr ardal i gynorthwyo unigolion yn eu cymuned. Pwysleisiwyd mai un partner o nifer o fewn y cynllun yw'r Cyngor, ond fod y Cyngor a'r rôl o hwyluso'r gwaith i roi'r sgyrsiau sydd eu hangen eu lle.

Mynegwyd fod 3 prif beth wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r bartneriaeth hon. Y cyntaf oedd comisiynu gwaith ymchwil gan fudiad National Development Team for Inclusion i drafod a mudiadau yn yr ardal i weld beth oedd y sefyllfa o ran cefnogi pobl ac i weld os oedd awydd yno i ddatblygu rhywbeth ychydig yn wahanol er mwyn cefnogi pobl o fewn eu cymunedau.

Yr ail oedd bod aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth wedi gosod her o ystyried beth all y Cyngor ei wneud o ran cynorthwyo pobl i gael y gefnogaeth oeddent eu hangen heb orfod mynd at bob asiantaeth neu adran Cyngor ar wahân. Arweiniodd hyn at weithdy aml-adran i drafod y mater a arweiniodd at yr holl adrannau yn neilltuo amser staff a oedd yn gweithio yn Nyffryn Nantlle i ddod at ei gilydd i drafod ymhellach.

Y trydydd oedd creu Lles Nantlle er mwyn tynnu gwahanol fudiadau i mewn megis y feddygfa, Cynefin, Adra a mudiadau lleol megis yr Orsaf. Drwy ddod at ei gilydd roedd modd creu gweledigaeth, dod i adnabod ei gilydd ond yn fwy na dim deall gwaith ei gilydd er mwyn cyd-weithio i ymateb i'r galw. Pwysleisiwyd nad oeddent yn dod at ei gilydd i siarad ond yn hytrach i ddeall beth oedd yn digwydd yn yr ardal. Erbyn heddiw mae Cydlynydd wedi ei phenodi am gyfnod o 6 mis a fydd yn gweithio yn yr Orsaf ym Mhen y Groes. Bydd modd galw mewn i'r Lolfa am sgwrs â swyddogion ble fydd modd defnyddio eu cysylltiadau i ymateb i'w anghenion.

Pwysleisiwyd fod ymrwymiad clir gan y sefydliadau i fod yn rhan o'r cynllun hwn sydd yn datblygu ac yn esblygu drwy ddysgu yn barhaus. Eglurwyd ei fod yn fwy 'na darparu gwasanaethau unigol ond yn hytrach creu amgylchedd cyd-weithio sy'n arwain at arloesi i lenwi blychau gofal. Mynegwyd fod y model hwn yn ysbrydoli mewn ffordd bositif a fydd yn arwain at gymuned iachach.

Bu i'r Aelod Lleol ym Mhen y Groes nodi ei brofiad ef o fod yn rhan o'r cynllun. Nodwyd ei fod wedi datblygu o gyfarfod ble roedd ymwybyddiaeth fod ffordd wahanol o weithio yn gymunedol. Amlygodd fod awydd cryf yn yr ardal i'w

weithredu ac mai hwn yw'r tro cyntaf i gyfarfodydd o'r fath fod, gyda mwy a mwy o bobl yn cael ei tynnu i mewn ac yn parhau i ddod i'r cyfarfodydd. Mynegwyd fod teimlad positif o drawsnewid, ble mae'r gymuned yn rhan hanfodol gyda'r Cyngor yn cydlynu ac nid yn arwain. Pwysleisiodd ei fod yn brosiect cymunedol i gadw pobl draw o wasanaethau ac i fyw bywyd ffyniannus, gwdyn a hyfyw yn eu cymunedau sydd angen ei efelychu ar draws y sir.

Wrth drafod yr adroddiad holwyd os yw'r prosiect ar gyfer Dyffryn Nantlle yn ei gyfanrwydd neu ar gyfer Pen y Groes yn unig, a phryd fydd y Lolfa yn agored i'r cyhoedd. Nodwyd ei fod ar gyfer Dyffryn Nantlle a'u bod yn gobeithio y bydd modd i'r Lolfa agor ym mis Hydref.

Wrth drafod y Lolfa holwyd pwy fydd ar gael yno i drigolion – hynny yw a fydd mudiadau gwahanol yno o wythnos i wythnos. Eglurwyd nad oedd trefniadau pendant yn eu lle eto, ond nodwyd drwy'r cyfarfodydd ble mae pawb wedi dod i adnabod gwaith ei gilydd bod swyddogion yn ymwybodol o rôl pawb a sut y gall wahanol asiantaethau cynorthwyo gyda gwahanol problemau.

Holwyd o ran trefn y cyfarfodydd Lles Nantlle, pa fath o eitemau sydd yn cael ei rhoi ar y rhaglen. Nodwyd fod fframwaith penodol yn cael ei ddilyn gan gwmni sy'n arbenigo mewn darparu cefnogaeth sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Eglurwyd hefyd nad yw'r cyfarfodydd yn rhai ffurfiol ond yn gyfarfodydd sydd yn cael eu hwyluso. Amlygwyd fod cyd-drafod wedi adnabod mai'r un rhwystrau sydd i'w gweld gan wahanol fudiadau ac felly eu bod yn gallu gweithio gyda'i gilydd i ddod dros y rhwystrau hyn.

Gofynnwyd sut mae'r cynllun yn cael ei gyllido ac os oes adnoddau i'w ymestyn ymhellach. Eglurwyd fod yn gyllideb fach iawn gydag amryw o'r mudiadau yn cyfrannu a bod angen edrych am arian i'w gyllido wedi'r cyfnod 6 mis. O ran symud ymlaen ac ymestyn ymhellach dros y sir, nodwyd fod yr adroddiad o'u blaenau heddiw er mwyn blaen graffu i weld os oes cefnogaeth i gynlluniau o'r math hwn.

Amlygwyd fod cynllun tebyg ym Mangor ble mae Hwb Cymunedol wedi agor yng nghanol y Ddinas. Diolchwyd i'r swyddogion sydd wedi cynorthwyo i wneud cynllun o'r fath ym Mangor yn ogystal.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn yr adroddiad.**
**b) Annog gweithredu'r cynllun mewn mannau eraill o'r sir.**

**8. TAI GWAG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Cyng. Paul Rowlinson.

Cyfeiriwyd at yr argyfwng tai sy'n wynebu Gwynedd, gan nodi bod y nifer sylweddol o dai gwag yn ychwanegu at y problemau presennol. Nodwyd bod rheoli tai gwag yn un o brif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a'r Cynllun

Gweithredu tai. Nodwyd fod y Premiwm Treth Cyngor wedi ei godi ar dai yng Ngwynedd sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, er mwyn annog perchnogion i adfer yr eiddo a dod a'r tai nol i ddefnydd. Ymhelaethwyd bod y Cyngor yn cynnig nifer o gynlluniau sy'n rhoi cymorth i bobl adnewyddu tai gwag i ddod a nhw i safon byw diogel. Cadarnhawyd bod 123 o dai yng Ngwynedd wedi elwa o'r Grant Tai Gwag. Nodwyd bod hyn yn cael effaith cadarnhaol ar yr economi yn lleol trwy'r defnydd o gontractwyr lleol.

Cadarnhawyd bod prynwyr tro cyntaf yn aml yn derbyn eithriad ar y Premiwm Tai Gwag am flwyddyn, i hwyluso'r broses o adfer yr eiddo. Er hyn, nododd Aelod bryder am y Premiwm Tai Gwag a chyfnod yr eithriad talu am flwyddyn. Mynegwyd bod Gwynedd yn ardal unigryw lle mae ardaloedd yn amrywio yn helaeth ar draws y sir. Nodwyd y dylid cydymdeimlo a'r rhai sydd yn etifeddu tŷ fel rhan o stad anwylyd, a sylwi bod straen gwerthu'r eiddo yn gallu peri gofid yn ystod amser anodd. Tynnwyd sylw at anawsterau trigolion wrth geisio gwerthu eiddo mewn rhai ardaloedd, yn sgil y cynnydd o brisiau tai, ac felly nodwyd y dylid ystyried hyn wrth osod a gweithredu ar y polisïau.

Mewn ymateb i ymholiad ar y nifer o ail dai sydd wedi eu hadnewyddu i fod yn gartrefi, cadarnhawyd fod y grant wedi ariannu adnewyddu amryw o dai a oedd eisoes yn ail dai i safon byw dderbyniol, sydd wedi darparu cartrefi i bobl leol yn y sir. Nodwyd bod yr adran eisoes wedi cyflawni'r targed o ddod a 282 o dai gwag yn ôl i ddefnydd yng Ngwynedd, gyda 299 o dai wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor trwy'r Grant Tai Gwag. Er hyn, nodwyd bod 1,306 o dai yn parhau i fod yn wag yng Ngwynedd hyd heddiw, sy'n adlewyrchiad o'r gwaith parhaus sydd gan yr adran yng Ngwynedd.

Mewn ymateb i ymholiad ar y nifer o dai gwag hir dymor sydd yn parhau i fod yn wag ers blynyddoedd, eglurwyd bod y perchenogion yn cael gohebiaeth gan yr adran er mwyn eu hannog i ddod a'r eiddo yn ôl i ddefnydd byw. Cadarnhawyd bod yr adran yn targedu ardaloedd lle mae'r tai wedi bod yn wag am beth amser gan ddefnyddio ffigyrau o'r adran dreth. Nodwyd bod hyn yn rhan elfennol o'r gwaith trawsadrannol sydd yn mynd rhagddo gan yr Uned Gorfodaeth, o fewn y Cynllun Gweithredu Tai, sy'n gweithredu ar adeiladau gwag sy'n achosi problemau dyrys yn y sir.

Mynegwyd pryder bod rhai tai gwag yn sefyll yn wag yng Ngwynedd am amser maith wrth fynd ar goll yn y system, ac felly nid yw'r perchnogion yn talu trethi na phremiwm o gwbl ar yr eiddo. Mynegwyd rhwystredigaeth am y broses o ymafael a'r eiddo gwag o fewn y sir. Cydnabuwyd fod hyn yn her i'r adran ond cadarnhawyd bod y tîm yn cydweithio ag adrannau eraill o fewn y Cyngor er mwyn cyflawni'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu Tai.

Tynnwyd sylw at ddarganfyddiadau ac argymhellion Adroddiad Sefydliad Bevan, a'r pwyslais ar yr angen i adnewyddu eiddo gwag er mwyn cynyddu'r stoc dai a chartrefu pobl sydd a'r angen am dai. Holwyd os ydi unrhyw eiddo gwag yn cael ei drin yn yr un modd a thai gwag, o fewn y Cynllun Gweithredu Tai. Cadarnhawyd y byddai angen cadarnhau'r sefyllfa gyda'r adran trethi.

Cyfeiriwyd at adroddiad Bevan wrth nodi pryder ynghylch anhyblygrwydd dynodiad safonau polisïau Llywodraeth Cymru wrth adnewyddu tai ac eiddo i ddefnydd byw. Gofynnwyd a yw Cyngor Gwynedd yn seilio eu polisi Grant Tai Gwag ar yr un safonau a Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb i hyn, cadarnhawyd

bod y Cyngor yn seilio ac yn cydymffurfio a'r safonau dynodedig o fewn y fframwaith Grant Tai Gwag Cyngor Gwynedd er mwyn cymeradwyo'r gwaith adnewyddu eiddo i ddod a'r tai gwag i ddefnydd diogel ac o safon byw dderbyniol o fewn y sir. Nodwyd y canolbwyntir ag ymdrin â gwaith mewnol ac allanol, gwaith plymio a trydanol ayyb er mwyn dod a'r tai i ddefnydd o safon byw derbynion. Nodwyd bod yr adran yn monitro'r gwaith sy'n cael ei gymeradwyo yn rheolaidd, er mwyn sicrhau defnydd priodol o'r grant. Cadarnhawyd bod cyfyngiad yn cael ei roi yn erbyn yr eiddo ar y gofrestr tir am gyfnod o 5 mlynedd, yn nodi bydd disgwyl i'r perchennog ad-dalu dyraniad i'r Cyngor petai yn gwerthu'r eiddo o fewn cyfnod 5 mlynedd.

Nodwyd bod yr adran eisoes wedi cyflawni'r targed o adnewyddu tai gwag yn y sir am y flwyddyn. Gofynnwyd a oes targed newydd neu os yw'r targed wedi cynyddu yn sgil hyn. Eglurwyd bod yr adran yn parhau i weithio yn effeithlon ac yn cyflawni gwaith da o fewn rhwydwaith trawsadrannol y Cyngor i wireddu'r cynlluniau. Nodwyd bod y Cynllun eisoes wedi ehangu ers 1 Awst, fel rhan o gyfnod treialu, er mwyn caniatáu mwy o bobl i fod yn gymwys i dderbyn y Grant Tai Gwag, ac o ganlyniad bydd mwy o bobl leol yn elwa o'r cymorth. Nodwyd eu bod mewn cyfnod treialu am 3 mis, a bydd y newidiadau yn cael eu hymgorffori yn ffurfiol o fis Tachwedd 2025 ymlaen. Cadarnhawyd y byddai'r adran yn parhau i hyrwyddo cynlluniau drwy ddefnydd cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau. Pwysleisiwyd effaith negyddol tai gwag ar gymunedau, diwylliant a'r iaith Gymraeg, a atgyfnerthwyd ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael o lenwi ail dai.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad.**

**9. BLAEN RAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2025/26**

Cytunwyd i fabwysiadu'r blaen raglen a nodi dymuniad i graffu ymateb y Cyngor i'r Adolygiad Ymarfer Plant, sy'n cael ei arwain gan Jan Pickles, pan yn amserol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben 13:30yp.